# Arolygiad dan Adran 10
# Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

## Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug
## Mynwent y Crynwyr
## Treharris
## Merthyr
## CF46 5AW

**Rhif yr Ysgol: 675/1437**

**Dyddiad yr Arolygiad: Gorffennaf 4ydd-7fed 2005**

**gan**

**Mrs Eleri Betts**
**W248/17717**

**Dyddiad: Medi 6ed 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/258/04P**

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug rhwng Gorffennaf 4ydd a 7fed 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mrs Eleri Betts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion eithriadol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer pob arolygiad mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau byr, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau safonol, mae yna adroddiadau hefyd ar chwe phwnc allweddol.

Ar gyfer arolygiadau llawn, mae yna adroddiadau hefyd ar bob pwnc.

Estyn sy'n penderfynu'r math o arolygiad a gaiff yr ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion sydd wedi cyfuno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn mae'r ysgol yn mynd i'w wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Rhestr o fyrfoddau yn yr adroddiad yn nhrefn yr wyddor.

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysg Arbennig |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| ABCh | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| ACCAC | Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| ANG | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| B | Blwyddyn |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 |
| CAAA | Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig |
| CAU | Cynllun Addysg Unigol |
| CC | Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CDY | Cynllun Datblygu Ysgol |
| CLl | Corff Llywodraethol |
| CRhA | Cymdeithas Rhieni ac Athrawon |
| CY | Côd Ymarfer |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| LlCC | Llywodraeth Cenedlaethol Cymru |
| PBA | Partneriaeth Busnes Addysg |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| UDRh | Uwch Dîm Rheoli |

| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|


| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-destun** | | 1 |
| **Crynodeb** | | 2 |
| **Argymhellion** | | 10 |
| **Safonau** | | 11 |
| Cwestiwn allweddol 1: | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 11 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | | 14 |
| Cwestiwn allweddol 2: | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 14 |
| Cwestiwn allweddol 3: | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 16 |
| Cwestiwn allweddol 4: | Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | 18 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | 20 |
| Cwestiwn allweddol 5: | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | 20 |
| Cwestiwn allweddol 6: | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 21 |
| Cwestiwn allweddol 7: | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 22 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | | 23 |
| Blynyddoedd Cynnar | | 23 |
| Cymraeg | | 28 |
| Mathemateg | | 30 |
| Hanes | | 31 |
| Daearyddiaeth | | 33 |
| Celf | | 34 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | | 36 |
| **Atodiadau** | | |
| A | Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 37 |
| B | Data a dangosyddion yr ysgol | 37 |
| C | Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2003 | 38 |
| Ch | Sail dystiolaeth yr arolygiad | 40 |
| D | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 41 |

# Cyd-destun

## Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug ym mhentref Mynwent y Crynwyr ger Treharris. Merthyr yw'r AALl. Mae'r prif adeilad yn dyddio o 1902. Agorwyd hi fel Ysgol Gymraeg yn 1976 gydag un dosbarth; erbyn heddiw mae wyth dosbarth yn yr ysgol. Ychwanegwyd caban deulawr a chaban bach arall ar iard yr ysgol wrth i'r rhifau gynyddu.

2. Daw'r disgyblion o ardaloedd Troed y Rhiw, Aberfan, Merthyr Vale, Edwardsville, Treharris, Mynwent y Crynwyr, Bedlinog a Threlewis. Mae talgylch yr ysgol o dan anfantais economaidd; mae nifer o bentrefi sy'n bwydo'r ysgol yn derbyn grant ariannol o Gronfa Gymdeithas Ewrop.

3. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn derbyn addysg feithrin naill ai yn yr ysgol neu mewn cylchoedd meithrin cyfagos. Mae 186 disgybl o 3-11 oed yn yr ysgol ar hyn o bryd, ffigwr sy'n cynnwys 22 plentyn amser llawn yn y dosbarth meithrin. Mae tua 19% o'r disgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim; mae oddeutu 5% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle Cymraeg yw'r brif iaith a daw tua 1% o gefndir lleiafrifol ethnig. Nodir gan yr ysgol bod 47 disgybl ar y gofrestr AAA ond bod neb â datganiad.

4. Bu'r pennaeth diwethaf yn absennol am gyfnod hir gyda salwch ac am ddwy flynedd pennaeth dros dro fu'n gyfrifol am redeg yr ysgol; apwyntiwyd pennaeth newydd ar ddechrau tymor yr haf 2005.

5. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 1999. Derbyniodd wobr 'Marc Safon i Ysgolion' yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn Ionawr 2004.

6. Arwyddair yr ysgol yw 'Gyda'n gilydd croeswn y bont'.

## Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae'r ysgol yn nodi mae ei phrif amcanion yw:

- creu naws gartrefol, hapus, ddisgybledig ac heriol er mwyn i bob unigolyn ddatblygu'n gyflawn trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg;
- ennyn hunan barch, parch at eraill a threftadaeth;
- datblygu dinasyddion cyfrifol a chyflawn ar gyfer her y dyfodol;
- datblygu pob plentyn hyd eithaf ei allu;
- sicrhau cyfle cyfartal a gwneud y cwricwlwm yn blentyn ganolog;
- ehangu gwybodaeth plentyn trwy gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol;
- creu awyrgylch sy'n hybu annibyniaeth a hyder;
- meithrin ymwybyddiaeth o gadwraeth a gwarchodaeth o'n hamgylchfyd.

8. Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:

- diweddaru'r cynllun Cymraeg, gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau iaith ar draws yr ysgol;
- diweddaru cynllun TGCh a threfnu HMS i staff ar feddalwedd newydd;
- pennu targedau ar gyfer sgiliau sylfaenol a monitro datblygiadau llythrennedd a rhifedd;
- diweddaru cynllun gwaith dylunio a thechnoleg;
- sefydlu Cyngor Ysgol;
- gwella amgylchedd yr ysgol a chadarnhau ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a pharhau gyda gweithgareddau Eco ysgolion.

## Crynodeb

9. Mae gan yr ysgol hon dîm o athrawon ymroddgar sydd wedi bod trwy gyfnod anodd oherwydd ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r pennaeth newydd sydd, ers ei phenodiad ar ddechrau tymor yr haf 2005, wedi cynnig gweledigaeth glir a chyfeiriad pendant i'w gwaith. O ganlyniad, bu cynnydd amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ethos llawn gofal a pharch at eraill yn amlwg o fewn cymuned yr ysgol hon.

10. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda graddau'r ysgol yn ei dogfen hunan-arfarnu mewn pedwar o'r cwestiynau allweddol ond wedi rhoi gradd uwch mewn dau arall a gradd is mewn un.

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| Cwestiwn allweddol | Gradd yr arolygiad |
|---|---|
| 1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 3 |
| 4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| 5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 3 |
| 6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 2 |
| 7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 |

## Safonau

12. At ei gilydd, mae safonau yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 8% | 78% | 14% | - | - |

13. Ar gyfer plant dan bump oed mae safonau ar draws y chwe maes dysgu fel a ganlyn:

**Meithrin**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 3 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 3 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 3 |

**Derbyn**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 |

14. Mae'r safonau yn CA1 a CA2 yn y pynciau fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Celf | Gradd 3 | Gradd 1 |

15. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yn llawer uwch na tharged LLCC ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007 sef 98% yn foddhaol neu'n well(Gradd 3) a 65% yn dda neu'n well (Gradd 2).

16. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd.

17. Mae disgyblion AAA yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd safonau da yn arbennig yn y sesiynau neilltuo lle dysgir hwy mewn grwpiau bach.

18. Yn CA1 o 2001 ymlaen mae'r Dangosydd Pwnc Craidd, sy'n cyfuno canlyniadau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi codi'n gyson

ac yn 2004 am y tro cyntaf ers blynyddoedd, roedd yn uwch na chanlyniadau'r AALl a chenedlaethol. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg mae canlyniadau'r Gymraeg a gwyddoniaeth yn 2004 uwchben y canolrif ac yn mathemateg yn union ar y canolrif.

19. Yng nghanlyniadau profion cenedlaethol CA2 yn 2004 llwyddodd yr ysgol i gynnal y gwelliant cyson fu yn y dair blynedd ddiwethaf. O ganlyniad roedd y Dangosydd Pwnc Craidd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr AALl ac ychydig yn uwch na Chymru gyfan. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg roedd yr ysgol uwchben y canolrif ym mathemateg a Saesneg, o dan y canolrif mewn gwyddoniaeth ac yn y chwartel isaf yn Gymraeg.

20. Mae sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda a'r ysgol yn cyflawni ei nôd eu bod i gyd yn ddinasyddion dwyieithog erbyn cyrraedd unarddeg oed.

21. Ar gyfer y plant dan bump mae'r safonau yn y medrau allweddol yn dda mewn rhifedd a TGCh. Mewn llythrennedd, fodd bynnag, er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion nid yw disgyblion meithrin yn datblygu sgiliau cyfathrebu ar draws y meysydd dysgu yn ddigonol ac yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn ni ddatblygir sgiliau cyn-ysgrifennu'n ddigonol.

22. Yn CA1 a CA2 mae datblygiad yn y medrau allweddol at ei gilydd yn dda mewn llythrennedd a TGCh. Mewn rhifedd fodd bynnag, er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion nid yw'r sgiliau yn cael eu datblygu'n gyson.

23. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn dda gyda nodweddion eithriadol.

24. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwybod yn hollol beth maent yn mynd i ddysgu gan y gwneir allnod y wers yn glir iddynt ar y dechrau. Gwnânt gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial.

25. At ei gilydd mae sgiliau creadigol y disgyblion yn dda. Mae llawer o'r gwaith gynhyrchir mewn celf yn CA2 yn dangos creadigrwydd eithriadol. Nid yw disgyblion ieuengaf, fodd bynnag, bob amser yn datblygu creadigrwydd yn llawn gan na chânt ddigon o ddewis o gyfryngau ac mae'r gwaith gorffenedig yn unffurf. Cyfyng yw sgiliau datrys problemau disgyblion ar draws yr ysgol.

26. Mae plant dan bump a disgyblion CA1 yn datblygu dealltwriaeth dda am rai swyddi sy'n greiddiol i fywyd y gymuned. Mae disgyblion hŷn yn sylweddoli pa gyfleoedd gwaith sydd yn yr ardal leol.

27. Mae safon ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent yn gwrtais a chyfeillgar ac mae'r rhai hŷn yn awyddus i ofalu am y rhai ifancaf a disgyblion o bob oed yn deall bod angen iddynt barchu rheolau'r ysgol.

28. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gyson dda; caiff eu hymddygiad effaith gadarnhaol ar safonau gwaith.

29. Mae'r cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor diwethaf yn 92%.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

30. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 24% | 56% | 20% | - | - |

31. Er nad oes gan yr ysgol bolisi addysgu a dysgu fyddai'n sicrhau paredd yn arferion addysgu o fewn yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu yn gryfder ac yn elfen allweddol yn y cynnydd a wneir gan y disgyblion.

32. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag AAA yn gyson dda, ac weithiau'n dda iawn, lle ceir cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth, neu wedi'u neilltuo.

33. Yn yr holl wersi mae ffocws clir a chyson, ac adolygu effeithiol ar y diwedd. Mae'r cynllunio yn ofalus a darperir tasgau gwahaniaethol addas.

34. Yn gyffredinol, mae gan athrawon wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pynciau a addysgant, ac maent yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar. Mae ganddynt berthynas waith eithriadol gyda disgyblion, a rhoddant ganmoliaeth i ymdrechion unigolion yn gyson. Defnyddir TGCh yn effeithiol i gyfoethogi'r addysgu.

35. Mae polisi asesu'r ysgol yn glir, ac yn gyffredinol mae'r gweithdrefnau'n effeithiol yn enwedig ar gyfer plant ag AAA a'r plant dan bump.

36. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd er nad yw'r arfer dda yn gyson ar draws yr ysgol; yn yr enghreifftiau gorau, mae'r sylwadau'n cynnig arweiniad addas ar sut i wella'r gwaith. Cydymffurfia adroddiadau blynyddol i rieni â'r gofynion statudol.

37. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol.

38. Ar gyfer y plant dan bump, seiliwyd y cwricwlwm yn briodol ar y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Caiff ei gyflwyno trwy themau addas ac mae cysylltiadau cyffrous rhwng y gweithgareddau yn y gwahanol feysydd. Fodd bynnag nid yw'r cynllunio ar gyfer y cylch llawn o themau wedi ei gwblhau ac ni werthuswyd y cynllunio sydd yn bodoli. Yn y dosbarth meithrin mae'r ddarpariaeth yn rhy strwythuredig ar adegau.

39. Mae'r cwricwlwm ar gyfer CA1 a CA2 yn cael ei gyflwyno'n ddiddorol gyda llawer o gyfleoedd i wneud gwaith ymarferol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn effeithiolrwydd y cynlluniau gwaith ar draws y pynciau gan nad yw nifer ohonynt wedi eu diweddaru. Caiff hyn effaith andwyol ar ddilyniant yn y pynciau. Yn ystod yr arolwg gwelwyd gwaith yn cael ei gyflwyno ar yr un lefel i ddosbarthiadau o wahanol oedran ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith cartref yn dda.

40. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi symud ymlaen gyda chynllunio ar gyfer medrau allweddol. Mae rhain wedi eu mapio allan ac mae côd yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau darpariaeth.

41. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ganllawiau ACCAC ar gyfer ABCh. Mae gweithgareddau Cyngor yr Ysgol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth lle caiff y disgyblion gyfleoedd i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

42. Mae'r ysgol yn anelu at gael ei chydnabod fel Ysgol Eco ac mae eisoes wedi ennill y faner efydd. Rhoddir pwyslais amlwg ar fwyta'n iach, datblygiad cynaliadwy, ailgylchu, lleihau gwastraff ac achub ynni a dŵr.

43. Mae datblygiad diwylliannol disgyblion yn eithriadol. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth.

44. Mae ymweliadau i ystod o fannau addoli yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mae parch ac ymwybyddiaeth at ieithoedd eraill yn cael ffocws amlwg yn yr ysgol.

45. Mae datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn eithriadol. Mae sesiynau cyd-addoli yn cynnig naws addolgar hyfryd lle mae elfen o fyfyrdod ac ethos Gristnogol yn amlwg. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig moesau da i'r disgyblion. Mae disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Mae darpariaeth allgyrsiol yr ysgol yn dda.

46. Mae cysylltiadau gyda rhieni yn dda. Mae cytundeb ysgol/cartref yn weithredol. Roedd y rhieni yn canmol yr ysgol yn frwdfrydig yn yr holiadur a'r cyfarfod cyn-arolwg. Serch hynny, nid yw Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol.

47. Er nad oes polisi ar gyfer partneriaethau gyda diwydiant, mae'r cysylltiadau yn datblygu'n briodol fel rhan o bartneriaeth dda yr ysgol gyda'i chymuned.

48. Mae partneriaethau gydag ysgolion eraill yn dda. Mae'r berthynas gyda'r ysgol uwchradd yn gryf ac mae polisi trosglwyddo yn ogystal â chysylltiadau cwricwlaidd effeithiol. Mae'r berthynas gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg y clwstwr sy'n bwydo'r ysgol gyfun a'r cylchoedd meithrin sy'n bwydo'r ysgol yn dda yn ogystal â phartneriaethau ag ysgolion cyfrwng Saesneg y sir.

49. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda. Mae disgyblion yn hynod hapus yn yr ysgol.

50. Rhoddir sylw cyson i les personol disgyblion yn ogystal ag i faterion iechyd a diogelwch. Cymerir camau ymarferol da i sicrhau diogelwch disgyblion tra byddant yn yr ysgol ac wrth groesi'r bont at y bysiau ar ddechrau a diwedd dydd.

51. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio yn ystod yr arolygiad; mae gan yr ysgol ganllawiau eglur i ymdrin â'r broblem pe cyfyd yr angen. Mae'r staff â gwybodaeth dda o'r canllawiau manwl sydd ar eu cyfer ym maes amddiffyn

plant. Mae trefniadau gweithredu wedi'u sefydlu'n dda; y pennaeth a'r dirprwy sy'n gyfrifol am y maes hwn.

52. Mae polisiau ar gyfer addysg ryw a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn hysbys i'r staff i gyd. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag anableddau corfforol er nad yw'r ystafell ddosbarth ar ben uchaf y caban dwbl yn addas ar eu cyfer.

53. Ceir gweithdrefnau effeithiol iawn, megis systemau gwobrwyo, i hybu hunan hyder a hunan barch disgyblion.

54. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda, ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r CY. Gwneir defnydd addas o brofion safonol i adnabod anghenion yn gynnar. Derbynia'r disgyblion gefnogaeth dda gan athrawon dosbarth, athrawes arbenigol, a chymorthyddion i gyrraedd targedau a nodir yn eu CAUau.

55. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, ond nid oes seicolegydd addysg o fewn yr AALl ar hyn o bryd i ymdrin â rhai problemau penodol disgyblion ag AAA. Lle mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r rhieni mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

56. Cafwyd cyfnod ansefydlog iawn yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i absenoldeb rheolaidd y cyn bennaeth oherwydd salwch.

57. Yn ystod y cyfnod hwn chwaraeodd y dirprwy rôl allweddol yn sicrhau bod ysbryd tîm yn bodoli rhwng yr athrawon; er enghraifft ymgymrodd yr ysgol gyda nifer o fentrau cenedlaethol megis ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol.

58. Ers i'r pennaeth newydd ymgymryd â'i rôl ychydig wythnosau yn unig cyn yr arolygiad mae wedi blaenoriaethu'n briodol. Llwyddodd mewn byr amser i sicrhau ymdeimlad o bwrpas o fewn cymuned yr ysgol. Fodd bynnag nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi datblygu'n ddigonol.

59. Mae diffygion amlwg yn rôl y cydlynyddion pwnc. Mae rhai athrawon wedi newid cyfrifoldebau nifer o weithiau yn ddiweddar ac nid ydynt yn hyderus am eu cyfrifoldebau. Ni chawsant gyfleoedd i fonitro'r dysgu a'r addysgu yn eu pynciau nac i gwblhau neu ddiweddaru'r cynlluniau gwaith. Nid yw nifer ohonynt wedi derbyn HMS sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau cyfredol.

60. Mae gan y CLl agwedd ofalgar a chefnogol tuag at yr ysgol ac mae'r pennaeth yn awyddus i ddefnyddio eu harbenigedd yn effeithiol; o ganlyniad mae'r aelodau yn datblygu'n rhan ddalwyr effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol.

61. Mae'r ddogfen hunan-arfarnu a luniwyd gan y pennaeth mewn ymgynghoriad gyda'r athrawon yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol, lle mae angen gwella a ble dylid blaenoriaethu. Mae'r argymhellion a

nodir yn yr adroddiad hwn eisoes yn cael eu nodi fel meysydd i'w datblygu yn nogfennaeth yr ysgol.

62. Ymatebodd yr ysgol yn briodol i arolwg wnaed gan yr AALl i ddirywiad yn y safonau yn dilyn yr arolygiad diwethaf gan flaenoriaethu'n gymwys. Mae'r CDY yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Mae'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad gydag ysgolion eraill yn gyson.

63. Mae'r CLl a'r disgyblion trwy weithgareddau Cyngor yr Ysgol yn datblygu eu rôl fwy fwy yn y broses hunan-arfarnu; fodd bynnag er bod y rhieni yn hynod wybodus am yr ysgol, nid ydynt wedi cael cyfle i roi mewnbwn ffurfiol.

64. Er mai araf fu cynnydd yr ysgol yn union wedi'r arolwg diwethaf, yn ystod 2004-2005 bu'r cynnydd yn dda.

65. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Defnyddir eu harbenigedd yn dda i gyfnewid dosbarthiadau.

66. Gwneir defnydd effeithiol o athrawes arbenigol sy'n cefnogi iaith disgyblion ag AAA. Mae staff cynnal yn yr ystafelloedd dosbarth yn gweithio'n arbennig o dda i hyrwyddo cynnydd y disgyblion dan eu gofal.

67. Mae safon glanweithdra'r ysgol yn dda iawn, a'r gofalwr, y staff cynorthwyol a gweinyddol yn cael dylanwad da ar rediad yr ysgol o ddydd i ddydd.

68. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau priodol ar gyfer pob oedran er bod prinder offer mawr o fewn ystafell dosbarth y plant meithrin. Mae'r adnoddau mewn cyflwr da, a gwneir defnydd cyson ac effeithiol ohonynt yn ystod y gwersi.

69. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r adeiladau. Er ei bod yn gyfyng, defnyddir y neuadd yn llwyddiannus ar gyfer gwersi addysg gorfforol, gwasanaethau ysgol gyfan, ac i arlwyo cinio. Er bod y caban deulawr yn edrych yn ddiraen o'r tu allan mae gofal yr athrawon yn sicrhau ei fod yn ddeniadol y tu fewn. Mae'r adeilad, fodd bynnag, yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddatblygu mewn nifer o agweddau o fywyd ysgol. Mae'r AALl ei hun yn feirniadol o gyflwr yr adeilad ac yn ddiweddar bu'r ysgol yn rhan o drefniadau ymgynghorol ynghylch symud i adeilad arall yn 2007.

70. Mae'r arddangosfeydd bywiog a chwaethus ar furiau'r ystafelloedd a'r coridorau'n cyfrannu'n dda at greu ethos braf yn yr ysgol, ac maent yn adnoddau dysgu effeithiol.

71. Nid oes gan yr ysgol gae chwarae, ond mae'r iard wedi ei farcio'n briodol ar gyfer gemau. Mae'r cabanau ar yr iard yn cwtogi'r lle chwarae ac ar addysg amgylcheddol yn sylweddol. Mae iard bwrpasol ar gyfer y plant dan bump oed. Mae'r mannau chwarae yn ddiogel, a gwneir defnydd addas ohonynt.

72. Mae rheolaeth gyllidol yn dynn, a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'r CLl yn monitro'r holl wariant yn effeithiol gan sicrhau cost effeithiolrwydd. Defnyddir y CDY fel arf i gynllunio'n gyllidol ar gyfer y dyfodol.

73. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen mae angen i'r athrawon a'r CLl:

A1 godi safonau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu , datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol yn y dosbarth meithrin ac mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y dosbarth derbyn.

A2 codi safonau mewn hanes, daearyddiaeth a chelf yn CA1;

A3 sicrhau bod y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau yn gyflawn ac wedi eu diweddaru'n briodol;

A4 datblygu rôl y cydlynyddion pwnc gan ddarparu cyfleoedd iddynt fonitro'r pynciau yn rheolaidd;

A5 datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad;

A6 parhau i ddatblygu'r broses hunan- arfarnu;

A7 sicrhau bod cynnwys adroddiad blynyddol y CLl i'r rhieni yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol.

N.B. Mae argymhellion 3-6 eisoes wedi eu nodi yn yr adroddiad hunan-arfarnu fel materion mae'r ysgol yn ymwybodol fod angen gwelliant.

## Safonau

**Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?**

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg.**

74. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu gan i'r ysgol roi Gradd 3 i'r cwestiwn hwn.

75. At ei gilydd, mae safonau yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 8% | 78% | 14% | - | - |

76. Ar gyfer plant dan bump oed mae safonau ar draws y chwe maes dysgu fel a ganlyn:

**Meithrin**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 3 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 3 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 3 |

**Derbyn**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 |

77. Mae'r safonau yn y pynciau a arolygwyd yn CA1 a CA2 fel a ganlyn:

| Pwnc | CA 1 | CA 2 |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Celf | Gradd 3 | Gradd 1 |

78. Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y gwersi yn llawer uwch na tharged LlCC ar gyfer Cymru gyfan am 2007 sef 98% yn foddhaol neu'n well(Gradd 3) a 65% yn dda neu'n well (Gradd 2).

79. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd.

80. Mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd safonau da yn arbennig yn y sesiynau neilltuo lle dysgir hwy mewn grwpiau bach.

81. Yn y blynyddoedd yn union wedi'r arolygiad diwethaf bu canlyniadau'r ysgol yn bur siomedig gyda'r Dangosydd Pwnc Craidd wedi syrthio'n sylweddol yn y ddau gyfnod allweddol. Yn CA1 bu amrywiadau annisgwyl yn y canlyniadau gyda lefelau merched a bechgyn yn amrywio'n afresymol. Yn CA2 yn ystod y cyfnod hwn roedd cryn wahaniaeth rhwng asesiadau athro a phrofion cenedlaethol.

82. Yn CA1 o 2001 ymlaen fodd bynnag, mae'r Dangosydd Pwnc Craidd, sy'n cyfuno canlyniadau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi codi'n gyson ac yn 2004 roedd y Dangosydd Pwnc Craidd am y tro cyntaf ers blynyddoedd yn uwch na chanlyniadau'r AALl a chenedlaethol. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg roedd canlyniadau'r Gymraeg a gwyddoniaeth uwchben y canolrif ac yn mathemateg yn union ar y canolrif. Roedd nifer y disgyblion gyflawnodd lefel tri yn y Gymraeg a mathemateg yn is na'r AALl a chenedlaethol ond yn uwch mewn gwyddoniaeth.

83. Yng nghanlyniadau'r profion cenedlaethol yn CA2 yn 2004 llwyddodd yr ysgol i gynnal y gwelliant cyson gyflawnwyd yn y dair blynedd ddiwethaf. O ganlyniad roedd y Dangosydd Pwnc Craidd yn sylweddol uwch na'r AALl ac yn uwch na Chymru gyfan. Roedd yr ysgol uwchben y canolrif mewn mathemateg a Saesneg, o dan y canolrif mewn gwyddoniaeth ac yn y chwartel isaf yn Gymraeg. Bu gwelliant graddol yn nghanlyniadau lefel pump yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg ond roedd y nifer gyflawnodd lefel pump mewn gwyddoniaeth yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

84. Mae sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda a'r ysgol yn cyflawni ei nôd eu bod i gyd yn ddinasyddion dwyieithog erbyn cyrraedd unarddeg oed. Gallant ddethol a throsi gwybodaeth o destunau yn y ddwy iaith ar gyfer ymchwil bersonol, yn enwedig wrth iddynt dynnu gwybodaeth o'r we. Mae eu gwybodaeth am enwau adar a lleoedd yn y ddwy iaith yn elfen drawiadol o'u dysgu.

85. Ar gyfer y plant dan bump mae'r safonau yn y medrau allweddol yn dda mewn rhifedd a TGCh. Mae sgiliau plant meithrin a derbyn yn datblygu'n dda wrth iddynt gael amrywiaeth o gyfloeodd i ddefnyddio rhif a graffiau mewn cyd-destunau gwahanol. Datblygant sgiliau cyson mewn TGCh wrth iddynt chwarae gemau iaith a rhif. Mewn llythrennedd fodd bynnag, er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion, nid yw disgyblion meithrin yn datblygu sgiliau cyfathrebu ar draws y meysydd dysgu yn ddigonol ac yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn ni ddatblygir sgiliau cyn-ysgrifennu'n ddigonol.

86. Yn CA1 a CA2 mae datblygiad yn y medrau allweddol at ei gilydd yn dda. Mae disgyblion yn datblygu sgiliau cyson dda mewn gwrando, siarad a darllen mewn hanes a daearyddiaeth; maent yn cadarnhau terminoleg pwnc yn gyson yn y

plenari ar ddiwedd gwersi. Mae tasgau amrywiol yn datblygu eu hyfedredd ysgrifennu ar draws y pynciau ond ar brydiau mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith yn llesterio hyn. Mae sgiliau TGCh ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda ac mae disgyblion o bob oed yn hyderus iawn wrth ddefnyddio'r byrddau gwyn rhyngweithiol a'r cyfrifiadur. Mewn rhifedd fodd bynnag er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion nid yw'r gallu yn cael ei ddatblygu'n gyson o fewn cyd-destunau gwahanol ac ni ymestynir sgiliau cofnodi gwybodaeth ar ffurf graff yn ddigonol ar draws yr ysgol.

87. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn dda gyda nodweddion eithriadol. Mae ethos cymuned yr ysgol yn hybu ymrwymiad i roi cyfle cyfartal i bawb. Mae'r disgyblion yn cael arweiniad da i ystyried pwysigrwydd y maes hwn yn nhermau byd eang er enghraifft, wrth iddynt drafod y tlodi sy'n effeithio rhai pobl yn y byd.

88. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwybod yn hollol beth maent yn mynd i ddysgu gan y gwneir allnodau'r wers yn glir iddynt ar y dechrau. At ei gilydd maent yn deall y tasgau ddisgwylir iddynt eu cyflawni a chânt gyfleodd i arddangos eu gwaith a dysgu trwy weithgareddau y lleill ar ddiwedd sesiwn. At ei gilydd maent yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial.

89. Mae sgiliau creadigol y disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae llawer o'r gwaith gynhyrchir mewn celf yn CA2 yn dangos creadigrwydd eithriadol; gwna disgyblion ddewisiadau synhwyrol wrth ddewis cyfryngau gan roi eu dehongliad eu hunain i waith gwreiddiol ac i waith sy'n efelychu arddull eraill. Ar brydiau fodd bynnag, llesteirir creadigrwydd mewn ysgrifennu barddoniaeth trwy ganolbwyntio'n ormodol ar y ffurf yn hytrach na'r teimladau sydd yn cael eu cyfleu. Nid yw disgyblion ieuengaf, bob amser yn datblygu creadigrwydd yn ddigonol gan nad ydynt yn cael digon o ddewis o gyfryngau ac mae'r gwaith gorffenedig yn unffurf. Cyfyng yw sgiliau datrys problemau disgyblion ar draws yr ysgol.

90. Mae plant dan bump a disgyblion CA1 yn datblygu dealltwriaeth dda am rai swyddi sy'n greiddiol i fywyd y gymuned; deallant beth yw prif nodweddion swyddi y nyrs a'r dyn tân. Mae disgyblion hŷn yn sylweddoli pa gyfleoedd gwaith sydd yn yr ardal leol; er enghraifft, treuliodd B5 fore mewn archfarchnad yn dysgu am y swyddi gwahanol a'r cyfleoedd sydd ar gael yno, ynghŷd â phwysigrwydd agweddau fel glendid a iechyd a diogelwch.

91. Mae safon ymddygiad y disgyblion yn dda mewn sesiynau cyd-addoli, yn y dosbarthiadau, yn ystod amseroedd egwyl ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a chyfeillgar a'r merched hŷn yn dangos aeddfedrwydd arbennig yn eu hymddygiad. Mae disgyblion yn cyd-chwarae a chyd-weithio'n hapus ac maent yn ymhyfrydu yn llwyddiant ei gilydd pan dderbyniant glôd mewn sesiwn gyd-addoli ac wrth rannu profiadau yn y dosbarth. Mae rhai hŷn yn awyddus i ofalu am y rhai ifancaf ac mae disgyblion o bob oed yn deall bod angen iddynt barchu reolau'r ysgol.

92. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gyson dda; caiff eu hymddygiad effaith gadarnhaol ar safonau. Maent yn eiddgar i wneud eu gorau a phlesio. Er

bod lefel sŵn yn codi weithiau yn y dosbarthiadau mae, gan amlaf, yn adlewyrchu gwaith yn y dosbarth; mae'r disgyblion bron yn ddieithriad yn cadw ar dasg.

93. Mae'r cyfartaledd presenoldeb dros y thri thymor diwethaf yn 92%. Mae absenoldebau heb awdurdod yn isel. Mae'r cofrestri yn gyffredinol gywir ac mae gan yr ysgol bolisi clir arno. Er bod yr ysgol yn awgrymu bod disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn achosi pryder, ni welwyd tystiolaeth yn y cofrestri nac yn ystod yr arolwg fod hyn yn wir broblem.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

94. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

95. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 24% | 56% | 20% | - | - |

96. Er nad oes gan yr ysgol bolisi addysgu a dysgu fyddai'n sicrhau paredd yn arferion addysgu o fewn yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu yn gryfder ac yn elfen allweddol yn y cynnydd a wneir gan y disgyblion.

97. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag AAA yn gyson dda, ac weithiau'n dda iawn, lle ceir cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth, neu mewn grwpiau neilltuo. Mae canran uchel o'r addysgu eithriadol yn B5 a B1.

98. Yn yr holl wersi mae ffocws clir a chyson ac adolygu effeithiol ar y diwedd. Mae'r cynllunio yn ofalus a darperir tasgau gwahaniaethol addas.

99. Yn gyffredinol, mae gan athrawon wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pynciau a addysgant, ac maent yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar. Mae ganddynt berthynas waith eithriadol gyda disgyblion, a rhoddant ganmoliaeth i ymdrechion unigolion. Defnyddir TGCh yn effeithiol i gyfoethogi'r addysgu.

100. Mewn tua chwarter o'r gwersi a arsylwyd mae'r nodweddion eithriadol i'r addysgu yn cynnwys:

- disgwyliadau uchel o ran gwaith ac ymddygiad;
- cyflwyniadau byrlymus;
- cyflymder heriol a
- defnydd pwrpasol o amrywiol dechnegau a strategaethau addysgu .

101. Lle mae rhai diffygion yn yr addysgu mae :

- cyflwyniadau ar ddechrau gwersi yn rhy faith;
- cyflymder anaddas i'r wers a
- defnydd anghywir o dermau technegol o fewn rhai meysydd.

102. Defnyddia athrawon ddulliau addysgu amrywiol i gadarnhau ac atgyfnerthu hyfedredd dwyieithog disgyblion, gan ddefnyddio technegau effeithiol i ymestyn eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

103. Mae polisi asesu'r ysgol yn glir ac yn gyffredinol, mae'r gweithdrefnau'n effeithiol. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac mae ansawdd yr asesu'n dda. Mae'r asesiadau'n gywir a chyson, ac yn cwrdd yn llawn â gofynion statudol, gan gynnwys y rhai ar gyfer disgyblion ag AAA.

104. Mae ansawdd yr asesu a wneir yn y dosbarth meithrin, a'r asesu gwaelodlin yn y dosbarth derbyn yn dda.

105. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd er nad yw arfer dda yn gyson ar draws yr ysgol; yn yr enghreifftiau gorau, mae'r sylwadau'n cynnig arweiniad addas ar sut i wella'r gwaith.

106. Mae cynnydd disgyblion yn cael ei gofnodi'n gyson, a chedwir cofnodion darllen manwl. Mae amserlen asesu addas ar gyfer y pynciau craidd, gyda'r gwaith yn cael ei asesu'n dymhorol. Mae asesu'r pynciau sylfaen yn fwy anffurfiol.

107. Mae gan ddisgyblion dargedau personol mewn iaith a mathemateg. Cynhelir trafodaethau rhwng athro a disgybl i gytuno ar dargedau realistig; mae sicrhau bod y disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn y broses asesu yn arfer dda iawn.

108. Mae CAUau disgyblion ag AAA yn cynnwys targedau iaith; mae'r disgyblion hyn yn ymwybodol o'u targedau, ac yn ymdrechu'n galed i'w cyflawni.

109. Gwneir defnydd effeithiol o ganlyniadau profion cenedlaethol ac asesiadau athrawon i lywio blaenoriaethau yn y cynllunio.

110. Defnyddir portffolios o waith yn effeithiol mewn nifer o feysydd er mwyn safoni asesiadau.

111. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Cyflwynant ddarlun clir o gyflawniadau a medrau disgyblion ym mhob pwnc, a rhoddant sylwadau gwerthfawr am ddatblygiad cymdeithasol a llwyddiannau a sut i wella'r gwaith.

112. Mae rhieni'n hapus gyda'r drefn o ymweld â'r ysgol deirgwaith mewn blwyddyn i drafod cynnydd eu plant gydag athrawon. Fodd bynnag, nid yw cyfran uchel o

rieni disgyblion ag AAA yn manteisio ar y cyfle i drafod gwaith eu plant gyda'r athrawes arbenigol ar y nosweithiau hyn.

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion.**

113. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu gan i'r ysgol ddyfarnu Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.

114. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol.

115. Ar gyfer y plant dan bump, seiliwyd y cwricwlwm yn briodol ar y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Caiff ei gyflwyno trwy themau addas ac mae cysylltiadau cyffrous rhwng y gweithgareddau yn y gwahanol feysydd. Fodd bynnag nid yw'r cynllunio ar gyfer y cylch llawn o themau wedi ei gwblhau ac ni werthuswyd y cynllunio sydd yn bodoli. Yn y dosbarth meithrin mae'r ddarpariaeth yn rhy strwythuredig ar adegau.

116. Mae'r cwricwlwm ar gyfer CA1 a CA2 yn cael ei gyflwyno'n ddiddorol gyda llawer o gyfleoedd i wneud gwaith ymarferol. Mae gwahaniaethu yn elfen amlwg yn y gwaith dosbarth a'r gweithgareddau unigol wedi eu cynllunio'n dda. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn effeithiolrwydd y cynlluniau gwaith ar draws y pynciau gan nad yw nifer ohonynt wedi eu diweddaru. Caiff hyn effaith andwyol ar ddilyniant yn y pynciau. Yn ystod yr arolwg gwelwyd gwaith yn cael ei gyflwyno ar yr un lefel i ddosbarthiadau o wahanol oedran ar draws yr ysgol.

117. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi symud ymlaen gyda chynllunio ar gyfer y medrau allweddol. Mae'r rhain wedi eu mapio allan ac mae côd yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau darpariaeth. Ffurfiwyd polisi yn ddiweddar. Fodd bynnag nid yw'r ysgol yn gwbl effeithiol yn ei darpariaeth o'r sgiliau hyn gan bod yna anghysonderau a bod, ar brydiau, diffyg dilyniant yn enwedig mewn rhifedd.

118. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith cartref yn dda. Gosodir cywaith gwaith cartref priodol ar gyfer plant dan bump, anfonir gwaith darllen adref yn rheolaidd yn CA1 a cheir amserlen bendant ar gyfer tasgau cartref yn CA2. Mae'r gwaith yn ategu'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn effeithiol.

119. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ganllawiau ACCAC ar gyfer ABCh. Mae gweithgareddau Cyngor yr Ysgol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth lle mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Gwna'r ysgol ddefnydd da o bob achlysur i sicrhau bod y disgyblion yn trafod teimladau ac ystyried pwysigrwydd cyfeillgarwch a sylweddoli eu bod i gyd yn unigryw. Cânt eu harwain yn rheolaidd i feddwl am ddinasyddiaeth yn nhermau cymuned Merthyr ac i sylweddoli eu rôl yn nhermau byd eang trwy gasglu arian at achosion da. Yn ddiweddar cynhaliodd yr ysgol 'Wythnos Fasnach Deg' lwyddiannus.

120. Mae'r ysgol yn anelu at gael ei chydnabod fel Ysgol Eco ac eisoes wedi ennill y faner efydd. Rhoddir pwyslais amlwg ar fwyta'n iach, datblygiad cynaliadwy, ailgylchu, lleihau gwastraff ac achub ynni a dŵr. Mae disgyblion B6 er enghraifft yn trafod trychineb megis damwain y Sea Empress a'i effaith andwyol ar adar ac anifeiliad yn y cyffiniau.

121. Mae datblygiad diwylliannol disgyblion yn eithriadol. Maent yn hyddysg yn nhreftadaeth Cymru ac yn gallu enwi arwyr megis Joseff Parry sydd wedi cyfrannu at y diwylliant hwn. Trwy weithgareddau'r Urdd chwaraeant ran weithredol yn niwylliant Cymru gyda'r disgyblion hŷn yn manteisio ar brofiad preswyl yn Llangrannog.

122. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan bwysig o ddarpariaeth gwricwlaidd. Er nad yw'r ysgol yn teimlo ei bod yn defnyddio adnoddau'r ardal leol yn llawn eto, mae elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig wedi eu seilio'n briodol ar enghreifftiau o'r gymuned o amgylch. Mae ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb yng Nghymru, megis amgueddfeydd, yn cadarnhau ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymreig a'r Cwricwlwm Cymreig.

123. Mae ymweliadau i ystod o fannau addoli yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mae parch ac ymwybyddiaeth at ieithoedd eraill yn cael ffocws amlwg mewn sesiynau cyd-addoli ac amryfaliaeth celf ar draws y byd yn cael ei ddathlu.

124. Mae datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn eithriadol. Mae sesiynau cyd-addoli ysgol yn cynnig naws addolgar hyfryd lle mae elfen o fyfyrdod ac ethos Gristnogol yn amlwg. Caiff y disgyblion gyfle i gymryd rhan wrth drafod cariad a myfyrio ar ryfeddod creu y byd. Mae'r sesiynau yn cynnig moesau da iddynt sy'n rhoi sail arbennig o effeithiol i fywyd pob dydd yr ysgol. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o da a drwg. Maent yn derbyn cyfrifoldebau yn frwdfrydig; er enghraifft, mae'r rhai ifancaf yn gwneud dyletswyddau dosbarth a'r rhai hŷn sy'n swyddogion yn helpu i warchod disgyblion ifancaf a rheoli mynedfeydd yr ysgol. Mae B6 yn gofalu am y siop ffrwythau ac yn dechrau sefydlu ymwybyddiaeth o sgiliau entrepeneriaeth.

125. Mae datblygiad allgyrsiol yr ysgol yn dda. Mae clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol megis y clwb criced, yn ehangu profiadau disgyblion. Caiff unigolion brofiadau da mewn cysylltiad ag ysgolion eraill mewn chwaraeon ac mewn dawns o dan Fenter Iaith Merthyr.

126. Mae cysylltiadau gyda rhieni yn dda. Mae rhieni plant dan bump yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o brosiectau 'Chwarae ac Iaith' a 'Dwylo Prysur'; trwyddynt mae'r ysgol yn hybu dysgu gydol oes. Mae rhieni yn helpu yn yr ysgol gyda darllen ac yn cael eu gwahodd i wasanaethau dosbarth. Rhoddir gwybodaeth fanwl iddynt am ddigwyddiadau'r ysgol trwy brospectws llawn, llythyru cyson a chylchgrawn ysgol. Mae cytundeb ysgol/cartref yn weithredol. Roedd y rhieni yn frwdfrydig yn eu canmoliaeth o'r ysgol yn yr holiadur a'r cyfarfod cyn-arolwg. Serch hynny, nid yw Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol.

127. Mae'r CRhA yn casglu arian yn rheolaidd ac yn chwarae rhan bwysig trwy gynnal gweithgareddau cymdeithasol sydd yn ddolen gydiol rhwng y cartref, ysgol a'r gymuned.

128. Er nad oes polisi ar gyfer partneriaethau gyda diwydiant, mae'r cysylltiadau yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol wedi ffurfio cysylltiadau gyda S4C ar gyfer 'Busnes yn y Gymuned'. Caiff yr ysgol ymweld â Thechniquest yn rheolaidd ac mae cysylltiadau cyson gyda PBA gan gynnwys ymweliad gan un o'r athrawon i'r gwaith prosesu dŵr yng Nghilfynydd. Cafwyd cymorth oddi wrth ddiwydiant lleol i dalu am gyfrifiadur ac mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach.

129. Mae partneriaethau gydag ysgolion eraill yn dda. Derbynia'r ysgol fyfyrwyr o brifysgol sy'n hyfforddi athrawon yn rheolaidd sy'n gwneud cyfraniad at ddysgu'r disgyblion. Mae'r berthynas gyda'r ysgol gyfun sy'n derbyn y disgyblion yn gryf.

130. Mae'r berthynas gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg y clwstwr sy'n bwydo'r ysgol gyfun a'r cylchoedd meithrin sy'n bwydo'r ysgol yn dda fel mae'r berthynas gydag ysgolion cyfrwng Saesneg Merthyr; er enghraifft mae athrawon dan bump yn rhyngweithio'n glos gyda rhwydwaith athrawon blynyddoedd cynnar yr AALl ac mae'r ysgol yn elwa o'r partneriaethau gyda'r AALl a'r gwasnaethau gynigir iddynt.

131. Gyda'r gymuned mae'r bartneriaeth yn dda. Mae'r ysgol yn cymryd rhan flaenllaw yn yr ardal ac mae disgyblion yn casglu arian ar lefel lleol yn ogystal ag ymweld gyda chartref hen bobol, cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau carolau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gyda Mentrau Iaith Merthyr a Thâf Elai ac mae nifer o'r disgyblion yn manteisio ar 'Glwb Carco' o dan reolaeth Menter Tâf Elai.

**Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?**

| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
|---|

132. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

133. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda. Mae disgyblion yn hynod hapus yn yr ysgol. Teimlant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae gan y rhieni hefyd hyder yn y gofal a'r cyfarwyddyd.

134. Mae gan yr ysgol nifer o weithdrefnau da iawn i ddelio gyda phryderon disgyblion. Teimla disgyblion fod y systemau'n effeithiol, a'u bod yn gallu rhannu pryderon neu gwynion gyda'u hathrawon.

135. Mae plant dan bump yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r cyswllt agos rhwng y cylchoedd meithrin a'r ysgol yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion B6 yn hyderus wrth newid ysgol.

136. Rhoddir sylw cyson i les personol disgyblion ac i faterion iechyd a diogelwch. Cymerir camau ymarferol da i sicrhau diogelwch disgyblion tra byddant yn yr ysgol, ac wrth iddynt groesi'r bont at y bysiau ar ddechrau a diwedd dydd. Cedwir mynedfeydd i'r ysgol ar glo yn ystod y dydd, a chynhelir dril tân yn rheolaidd. Nodir trefniadau goruchwyliaeth ar gyfer disgyblion yn glir o fewn dogfennaeth yr ysgol, a chânt eu gweithredu'n effeithiol.

137. Gwneir asesiadau risg cyn mynd â disgyblion ar ymweliadau tu allan i'r ysgol, ac yn ddiweddar gwnaethpwyd asesiadau risg o adeiladau'r ysgol.

138. Darperir llawlyfr i gynorthwywyr amser cinio yn esbonio eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau; mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn gofal da yn ystod yr awr ginio.

139. Mae trefn benodol ar gyfer rhoi moddion i ddisgyblion, ac mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth glir am gamddefnydd o alcohol a chyffuriau. Caiff y ddarpariaeth hon ddylanwad da ar agweddau disgyblion. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gofalu am ddisgyblion sy'n teimlo'n anhwylus neu sy'n cael damwain yn effeithiol, ac mae gan nifer dda o aelodau staff gymwysterau cymorth cyntaf.

140. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio yn ystod yr arolygiad; mae gan yr ysgol ganllawiau eglur i ymdrin â phroblemau pe cyfyd yr angen. Mae staff â gwybodaeth dda o'r canllawiau manwl sydd ar eu cyfer ym maes amddiffyn plant. Mae trefniadau gweithredu wedi'u sefydlu'n dda; y pennaeth a'r dirprwy sy'n gyfrifol am y maes.

141. Mae polisiau ar gyfer addysg ryw a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn hysbys i'r staff i gyd. Mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion yn effeithiol, gan gynnwys rhai ag anableddau corfforol, er nad yw'r ystafell ddosbarth ar ben uchaf y caban dwbl yn addas ar eu cyfer.

142. Ceir gweithdrefnau effeithiol iawn, megis systemau gwobrwyo, i hybu hunan hyder a hunan barch disgyblion. Dethlir pob llwyddiant yn gyson mewn amrywiol ffyrdd.

143. Mae'r berthynas dda rhwng yr ysgol a mudiadau megis yr heddlu a'r nyrs, yn hyrwyddo iechyd a diogelwch y disgyblion mewn modd cadarnhaol. Mae'r ymrwymiad i gynllun ysgolion iach yr AALl, y siop ffrwythau a'r peiriant dŵr yn codi ymwybyddiaeth o fanteision bwyta'n iach.

144. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda, ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r CY. Gwneir defnydd addas o brofion safonol i adnabod anghenion yn gynnar. Derbynia'r disgyblion gefnogaeth dda gan athrawon dosbarth, athrawes arbenigol, a chymorthyddion i gyrraedd targedau a nodir yn eu CAUau.

145. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, ond nid oes seicolegydd addysg o fewn yr AALl ar hyn o bryd i ymdrin â rhai problemau penodol disgyblion ag AAA. Lle mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a rhieni mae disgyblion yn gwneud cynnydd da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

**Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?**

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

146. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

147. Cafwyd cyfnod ansefydlog iawn yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i absenoldeb rheolaidd y cyn bennaeth oherwydd salwch.

148. Yn ystod y cyfnod hwn chwaraeodd y dirprwy rôl allweddol yn sicrhau bod ysbryd tîm yn bodoli rhwng yr athrawon; er enghraifft, ymgymrodd yr ysgol gyda nifer o fentrau cenedlaethol megis ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol.

149. Er i'r pennaeth newydd ymgymryd â'i swydd ychydig wythnosau yn unig cyn yr arolygiad mae wedi blaenoriaethu'n briodol trwy adolygu nodau ac amcanion yr ysgol, cyflwyno ei gweledigaeth i'r staff a'r CLl, monitro'r dysgu a'r addysgu a datblygu'r broses hunan-arfarnu. Llwyddodd mewn byr amser i sicrhau ymdeimlad o bwrpas o fewn cymuned yr ysgol.

150. Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn cydweithio'n dda ac mae gweithdrefnau o ddydd i ddydd yn effeithiol.

151. Ailsefydlwyd UDRh'r ysgol yn ddiweddar ac maent yn rheoli'r ysgol yn effeithiol. Mae llinellau cyfathrebu o fewn yr ysgol yn glir ac mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn fforwm i leisio barn ac yn cael eu cofnodi.

152. Mae diffygion amlwg yn rôl y cydlynyddion pwnc. Mae rhai athrawon wedi newid gofalaeth pynciol nifer o weithiau yn ddiweddar ac nid ydynt yn hyderus am eu cyfrifoldebau. Ni chawsant gyfleoedd i fonitro'r dysgu a'r addysgu yn eu pynciau nac i gwblhau neu ddiweddaru'r cynlluniau gwaith. Nid yw nifer ohonynt wedi derbyn HMS sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau cyfredol. Serch hynny, maent yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol ac mae un athrawes wedi llwyddo i gael arian oddi wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fynychu arddangosfa dechnoleg gwybodaeth yn Llundain.

153. Nid yw swydd ddisgrifiadau'r staff yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau yn gywir gan nad ydynt wedi eu diweddaru. Nid yw nifer o'r polisiau rheolaeth hefyd wedi eu diweddaru ac nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi datblygu'n ddigonol.

154. Mae'r trefniadau ynglŷn ag anwytho ANG a myfyrwyr yng ngofal y dirprwy; maent yn briodol a'r gefnogaeth yn dda.

155. Mae gan y CLl agwedd ofalgar a chefnogol tuag at yr ysgol ac mae'r pennaeth yn awyddus bod eu harbenigedd yn cael ei ddefnyddio. O ganlyniad maent yn datblygu'n rhan ddalwyr effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol.

**Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?**

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

156. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfanu gan i'r ysgol ddyfarnu Gradd 3 i'r cwestiwn allweddol hwn.

157. Mae'r ddogfen hunan-arfarnu a luniwyd gan y pennaeth mewn ymgynghoriad gyda'r athrawon yn gynhwysfawr, sy'n rhoi darlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol, lle mae angen gwella a ble dylid blaenoriaethu.

158. Mae'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes yn cael eu nodi fel meysydd i'w datblygu yn nogfennaeth yr ysgol. Mae'r tîm arolygu yn cydfynd gyda barn yr ysgol mewn pedwar o'r cwestiynau allweddol, wedi rhoi gradd uwch mewn dau arall a gradd is mewn un.

159. Sefydlwyd diwylliant hunan-arfarnu eisoes ymysg y staff o dan arweiniad y dirprwy fu'n bennaeth dros dro. Er na fu canlyniadau monitro cydlynyddion yn bwydo'r broses hunan-arfarnu yn ffurfiol, pennwyd amser HMS ysgol gyfan i gydnabod a thrafod diffygion a gwendidau'r ysgol. Mae'r staff yn adnabod yr ysgol yn dda.

160. Cynhyrchwyd nifer o ddogfennau i arwain yr ysgol ymlaen ers yr arolygiad diwethaf. Lluniwyd cynllun gweithredu priodol ôl arolygiad ond oherwydd problemau'r ysgol ni wireddwyd y targedau yn ddigonol i sicrhau cynnydd.

161. Ymatebodd yr ysgol yn briodol i arolwg wnaed gan yr AALl i ddirywiad yn y safonau yn dilyn yr arolygiad diwethaf gan flaenoriaethu'n gymwys; mae'r CDY yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Mae'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad gydag ysgolion eraill yn gyson.

162. Yn fuan wedi ei hapwyntio gwnaeth y pennaeth ddadansoddiad a gwerthusiad o'r hyn oedd wedi ei gyflawni yn y CDY er mwyn galluog'r ysgol i lunio dogfen hir dymor i symud yr ysgol ymlaen.

163. Mae'r CLl yn datblygu eu rôl fwy fwy yn y broses hunan-arfarnu ond er bod y rhieni yn hynod wybodus am yr ysgol, nid ydynt wedi cael cyfle i roi mewnbwn ffurfiol. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol ar gyfer y trefniadau sy'n rhoi amser paratoi, cynllunio ac asesu i athrawon o fis Medi 2005 ymlaen.

164. Mae llais Cyngor yr Ysgol yn cael sylw priodol ym mywyd yr ysgol; mae'r aelodau yn rhoi barn glir ar agweddau o fywyd yr ysgol ac yn ymfalchio yn y sylw gaiff eu syniadau gan yr athrawon.

165. Er mai araf fu cynnydd yr ysgol yn union wedi'r arolwg diwethaf, yn ystod 2004-2005 bu'r cynnydd yn dda.

**Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwr wrth ddefnyddio adnoddau?**

| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig** |
| --- |

166. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

167. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Defnyddir eu harbenigedd yn dda ac maent yn cyfnewid dosbarthiadau, er enghraifft mae athrawon B2 a B6 yn cyfnewid ar gyfer gwersi mathemateg ac addysg gorfforol.

168. Rhennir cyfrifoldebau am bynciau ac agweddau yn deg rhwng athrawon. Nid oes gan y pennaeth ofal dosbarth.

169. Mae effaith dda hyfforddiant mewnol i'w weld mewn agweddau o'r dysgu a'r addysgu, er enghraifft, y defnydd effeithiol o TGCh ar draws yr ysgol, a chelf yn CA2.

170. Gwneir defnydd effeithiol o athrawes arbenigol sy'n cefnogi iaith disgyblion ag AAA; mae ei mewnbwn o ansawdd uchel. Mae staff cynnal yn yr ystafelloedd dosbarth yn gweithio'n arbennig o dda i hyrwyddo cynnydd y disgyblion dan eu gofal. Mae nifer o fechgyn a merched yn elwa o hyfforddiant gan athrawon arbenigol cerdd.

171. Mae safon glanweithdra'r ysgol yn dda iawn, a'r gofalwr, y staff cynorthwyol a gweinyddol yn cael dylanwad da ar rediad yr ysgol o ddydd i ddydd.

172. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau priodol ar gyfer pob oedran er bod prinder offer mawr o fewn ystafelloedd dosbarth y plant meithrin. Mae'r offer mewn cyflwr da, a gwneir defnydd cyson ac effeithiol o adnoddau yn ystod y gwersi. Mae deunyddiau digonol ar gyfer datblygu sgiliau creadigol ac ymarferol, a gwneir defnydd hynod o effeithiol gan y staff a'r disgyblion o'r byrddau gwyn rhyngweithiol.

173. Mewn dogfen ddiweddar ynglŷn ag adeiladau'r ysgol, noda'r AALl bod yr adeiladau mewn cyflwr gwael, ac yn anaddas ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Nodir bod y neuadd yn fach, nad oes lle i sefydlu canolfan dechnoleg gwybodaeth, a bod yr adeiladau dros-dro mewn cyflwr gwael. Yn ddiweddar, bu'r ysgol yn rhan o drefniadau ymgynghorol ynghylch symud i adeilad arall yn 2007.

174. Serch hynny, gwneir defnydd effeithiol iawn o'r adeiladau presennol. Er ei bod yn gyfyng, defnyddir y neuadd yn llwyddiannus ar gyfer gwersi addysg gorfforol, i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan, ac i arlwyo cinio. Er bod y caban deulawr yn edrych yn ddiraen o'r tu allan mae gofal yr athrawon yn sicrhau ei fod yn ddeniadol y tu fewn. Mae llyfrgell bwrpasol sydd wedi ei lleoli yng nghanol y prif adeilad yn cael ei defnyddio'n dda gan ddisgyblion CA1 a CA2. Gwneir defnydd addas o dair ystafell ddosbarth ddynodedig gan ddisgyblion CA1 ar gyfer gwersi iaith, mathemateg a gwyddoniaeth; gweithia'r system yn dda yn gyffredinol, yn enwedig o ran argaeledd adnoddau, ond mae diffyg perchnogaeth yr ystafelloedd yn arwain at ddiffyg gofal ambell waith. Mae'r adeilad presennol yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddatblygu mewn nifer o agweddau o fywyd yr ysgol.

175. Mae'r arddangosfeydd bywiog a chwaethus ar furiau'r ystafelloedd a'r coridorau'n cyfrannu'n dda at greu ethos braf yn yr ysgol, ac yn adnoddau dysgu effeithiol.

176. Nid oes gan yr ysgol gae chwarae, ond mae'r iard wedi'i marcio'n briodol ar gyfer gemau er bod y cabanau ar yr iard yn cwtogi'r lle chwarae ac ar gyfleoedd ar gyfer addysg amgylcheddol yn sylweddol. Mae iard bwrpasol ar gyfer plant dan bump oed. Mae'r mannau chwarae yn ddiogel, a gwneir defnydd addas ohonynt.

177. Mae rheolaeth gyllidol yn dynn, a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'r CLl yn monitro'r holl wariant yn effeithiol, gan sicrhau cost effeithiolrwydd. Defnyddir y CDY fel arf i gynllunio'n gyllidol ar gyfer y dyfodol.

178. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

**Plant dan bump**

**Meithrin**

**Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu**

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

**Nodweddion da**

179. Mae disgyblion meithrin yn gwrando'n dda ac yn deall yr holl gyfarwyddiadau a chanllawiau a roddir gan oedolion. Ymatebant yn dda i gyfarwyddiadau ar sut mae gwneud bisgedi er enghraifft, gan wneud ymdrech i gofio'r geiriau cywir am gynhwysion y rysait. Gwrandawant yn dda ar lyfr stori 'Dyma Olwen yr Octopws' a gallant ddisgrifio'n syml sut mae Olwen yn teimlo; uniaethant gyda chymeriadau yn eu hoff storïau. Cyfathrebant yn dda wrth greu brawddeg gyflythrennol yn seiliedig ar y lythyren 'o'.

**Diffygion**

180. Nid yw sgiliau cyn ddarllen plant yn datblygu'n ddigonol gan nad oes digon o brint gweledol yn y dosbarth ac nid yw plant yn trin a thrafod llyfrau yn annibynnol.

181. Mae sgiliau cyn ysgrifennu plant yn gyfyng.

**Datblygiad personol a chymdeithasol**

| **Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion** |
|---|

**Nodweddion da**

182. Mae plant meithrin yn deall bod angen iddynt ofalu am lendid personol ar ôl gorffen gweithgareddau a chyn bwyta. Gallant gadw ar dasg a dyfalbarhau. Derbyniant bod angen iddynt ddilyn trefn y dosbarth a bod disgwyliadau arnynt i gydymffurfio mewn sesiynau cyd-addoli. Cymerant eu tro wrth chwarae gêmau a chydweithiant yn dda mewn grwpiau. Maent yn awyddus i blesio. Dangosant hyder wrth iddynt arddangos eu sgiliau o flaen eu cymheiriad.

**Diffygion**

183. Nid yw plant yn dangos digon o ddatblygiad wrth wneud dewisiadau a gweithio'n annibynnol.

**Datblygiad mathemategol**

| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg** |
|---|

**Nodweddion da**

184. Mae plant meithrin yn datblygu geirfa mathemategol briodol megis 'mawr' a 'bach', 'byr' a 'hir'. Maent yn gallu cyfrif pump ar linyn gan greu siâp y rhifau yn gywir yn y tywod, yr awyr a'r llawr ac maent yn deall y cysyniad o 'cyntaf'. Cadarnhânt eu dealltwriaeth mewn nifer o ganeuon rhif. Gallant adnabod siapiau dau ddimensiwn ac enwi nifer ohonynt. Maent yn deall cysyniadau syml yn ymwneud gyda chynhwysedd wrth chwarae yn y dŵr ac ymgyfarwyddant gyda darnau arian a'r broses prynu a gwerthu yn siop glan y môr yn y dosbarth.

**Diffygion**

185. Nid oes diffygion arwyddocaol.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg**

### Nodweddion da

186. Mae plant meithrin yn deall beth yw gwaith y plismon a'r postman. Gallant nodi nodweddion rhai anifeiliaid bach a pha rai sydd i'w gweld ar lan y môr; arsylwant gyda chywreinrwydd trwy chwyddwydr ar gregyn o wahanol siapiau gan eu teimlo'n chwilfrydig. Deallant fod gwahanol fathau o ddefnyddiau a'u bod yn bosibl rholio toes i newid ei siâp. Maent yn deall bod angen cynhwysion arbennig i goginio a bod rhaid dilyn y rysait mewn trefn i gynhyrchu bwyd yn llwyddiannus. Sylwant bod gwrthrychau yn gallu arnofio neu suddo mewn dŵr. Deallant beth sydd yn bosibl i'w wneud wrth ddefnyddio cyfrifiadur ac argraffydd.

### Diffygion

187. Nid oes diffygion arwyddocaol

## Datblygiad corfforol

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

### Nodweddion da

188. Mae plant meithrin yn trafod offer ysgrifennu yn dda a gallant reoli llygoden y cyfrifiadur a symud y cyrchwr yn briodol i wisgo tedi ar y sgrin. Maent yn datblygu sgiliau da wrth rolio papur ac yn trin offer gludo gyda rheolaeth addas. Gallant reoli gwrthrychau yn y tywod i greu castell. Datblygant sgiliau gwthio, tynnu a chydbwyso wrth farchogaeth beiciau, bowndio ar beli mawr a llithro lawr y llithren.

### Diffygion

189. Nid yw mân sgiliau corfforol plant yn datblygu'n ddigonol.

## Datblygiad Creadigol

**Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion**

### Nodweddion da

190. Mae plant meithrin yn canu'n frwdfrydig ac yn gwneud ystumiau corfforol priodol i'r caneuon. Maent yn deall bod ystod o ffynonellau sain wrth iddynt ddewis, arbrofi a chwarae gyda nifer o offerynnau ar y bwrdd sŵn. Creant hunan bortreadau gan ddefnyddio papur a gwlân a defnyddiant sialc a phaent yn rhydd. Chwaraeant rôl yn briodol yn y siop gan gymryd rôl prynwr a gwerthwr. Defnyddiant glai a thoes yn briodol.

**Diffygion**

191. Nid yw sgiliau creadigol plant yn datblygu'n ddigonol; mae llawer o'r hyn a gynhyrchir ganddynt yn unffurf.

**Derbyn**

**Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu**

| **Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion** |
|---|

**Nodweddion da**

192. Mae plant derbyn yn datblygu sgiliau gwrando da sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth da o ystod o batrymau iaith a ddefnyddiant yn gyson a chywir. Gofynnant ac atebant gwestiynau yn briodol a gallant roi rhesymau dros eu barn a'u hatebion. Defnyddiant ystod o eiriau sy'n gysylltiedig gyda glan y môr. Gallant egluro sut y gellir helpu pengwin i hedfan ac esbonio'n glir beth mae parasiwt yn ei wneud. Maent yn nodi synau a llythrennau cychwynnol nifer o eiriau yn gywir ac yn gallu rhestri geiriau sy'n dechrau gyda'r un lythyren. Maent yn trafod llyfrau yn briodol ac yn gallu uniaethi gyda nifer o gymeriadau eu storiau. Mae nifer yn ffurfio llythrennau ac yn copio geiriau'n gywir a rhai yn ysgrifennu eu henwau yn ddealladwy.

**Diffygion**

193. Nid yw sgiliau dad-ddynodi ac adnabod geiriau'r plant o'r amgylchedd ddosbarth yn datblygu'n ddigonol.

194. Nid yw sgiliau ysgrifennu ymddangosiadol plant yn datblygu'n ddigonol.

**Datblygiad personol a chymdeithasol**

| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg** |
|---|

**Nodweddion da**

195. Yn y derbyn mae plant yn deall beth yw disgwyliadau ymddygiad y dosbarth ac yn ymateb yn dda i drefn y dydd. Dangosant gryn hunan-ddisgyblaeth wrth ddewis gweithgareddau a dangosant annibyniaeth wrth ymgymryd â hwy. Deallant bod rhaid iddynt aros eu tro a chaniatau eraill i ateb cwestiynau. Mae'r mwyafrif yn gallu gwisgo a dadwisgo ac maent yn ofalus iawn o'u heiddo personol. Deallant fod arnynt gyfrifoldeb i dacluso ar ddiwedd sesiwn a bod angen gwisgo ffedog wrth chwarae gyda dŵr a defnyddio paent. Maent yn deall bod teimladau a chael ffrindiau yn bwysig.

**Diffygion**

196. Nid oes diffygion arwyddocaol.

**Datblygiad mathemategol**

| Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg |
|---|

**Nodweddion da**

197. Mae plant derbyn yn gallu cyfrif hyd at 20 ac yn ôl o ddeg i un yn hyderus. Goslefant y rhifau yn gywir wrth ganu ystod o ganeuon rhif. Maent yn adnabod rhifau o dan ddeg ac yn gallu eu gosod yn gywir ar linell rif. Gallant ddatrys problemau adio syml yn y pen. Deallant bwysigrwydd dilyniant wrth gofnodi dyddiau'r wythnos. Maent yn nodi siapiau dau ddimensiwn yn gywir ac yn gallu enwi a deall nodweddion rhai siapiau tri dimensiwn. Deallant y cysyniad o 'llawn' a 'hanner llawn' wrth lenwi cynwysyddion yn y dŵr a'r tywod. Sylweddolant bod yn bosibl cofnodi gwybodaeth megis hoff hufen iâ y dosbarth ar ffurf graff ac maent yn dechrau deall bod adenydd pili pala yn gymesur. Gallant greu setiau yn seiliedig ar siap a lliw.

**Diffygion**

198. Nid oes diffygion arwyddocaol.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

| Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg |
|---|

**Nodweddion da**

199. Mae plant derbyn yn deall bod rhai anifeiliaid yn newid wrth iddynt dyfu. Gwnânt sylwadau priodol wrth ddangos eu dealltwriaeth o gylch bywyd y lindys. Gwyddant dan ba fath o amodau mae pengwin yn byw. Deallant bwysigrwydd synhwyrau wrth iddynt deimlo, arogli a blasu a gwyddant beth yw swyddogaeth injan dân a phrif ddyletswyddau plismon. Maent yn gwybod bod arferion penodol yn gysylltiedig gyda defod priodas a chreant gardiau cyfarch a gwahoddiadau ar gyfer seremoni priodas ffug yn y dosbarth. Deallant bod sudd a dŵr yn gallu newid wrth rewi ac wrth ddadmer a sylweddolant bod halen yn ymdoddi ia.

**Diffygion**

200. Nid oes diffygion arwyddocaol.

## Datblygiad corfforol

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg**

### Nodweddion da

201. Yn y derbyn mae plant yn defnyddio sgiliau da wrth drin pensiliau, sialc a chreonau. Rheolant ffyn pysgota bach yn dda tra'n chwarae yn y twb dŵr. Maent yn trafod darnau jigso yn ddeheuig ac yn defnyddio offer i ludo a thorri yn effeithiol. Gallant drin blociau bach i adeiladu tyrrau, mowldio clai i siâp penodol a rheolant offer mewn tywod sych a gwlyb. Symudant yn ddiogel o gwmpas offer dringo a gallant gydbwyso eu cyrff ar feinciau a matiau gan ymestyn eu cyhyrau a theithio ar draws y llawr gan efelychu siâp camel, broga, cwpan a seren. Gallant anelu yn gywir at darged.

### Diffygion

202. Nid oes diffygion arwyddocaol.

## Datblygiad creadigol

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg**

### Nodweddion da

203. Mae plant y derbyn yn cyd weithio'n dda i greu robot allan o siapiau dau ddimensiwn. Maent yn arddangos creadigrwydd wrth addurno pili pala gydag amrywiaeth o ddeunyddiau megis secwinau a phapur sgleiniog a chreant fandiau pen deniadol gan eu haddurno gyda phatrymau diddorol. Chwaraeant rôl yn realistig wrth ddawnsio fel merched o'r Caribi ar fwrdd llong yn y dosbarth. Deallant sut mae chwarae rhai offerynnau di-draw a gallant adalw nifer o hwiangerddi a chaneuon iaith. Maent yn mowldio clai yn llwyddiannus i greu modelau o anifeiliad bach.

### Diffygion

204. Nid oes diffygion arwyddocaol

## Cymraeg

| | |
|---|---|
| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig** | **Cyfnod Allweddol 1** |
| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig** | **Cyfnod Allweddol 2** |

### Nodweddion da

205. Mae disgyblion o bob oed a gallu yn CA1 yn gwrando'n dda. Canolbwyntiant yn dda wrth wrando ar eu hoff straeon trwy glustffonau.

206. Mae disgyblion ar draws CA1 yn sgwrsio'n rhugl wrth drafod llyfrau yn ymwneud gyda'u thema 'Pethau Byw'. Gallant siarad am nifer o anifeiliaid a disgrifio eu nodweddion. Gwnânt ymgais dda i ddefnyddio geirfa eang a phatrymau iaith cywir yn eu hymatebion.

207. Yn CA1 uniaetha'r disgyblion yn dda gyda chymeriadau eu hoff straeon; maent yn gallu adalw eu helyntion a disgrifio eu nodweddion a'u teimladau yn gywir. Maent yn deall ac yn gallu disgrifio beth yw'r gwahaniaeth rhwng stori a llyfr ffaith. Defnyddiant derminoleg gywir wrth egluro nodweddion llyfrau ffaith ac maent yn deall pwysigrwydd mynegai ac arwyddocâd penawdau ynddynt.

208. Yn ôl eu gallu a'u profiad mae disgyblion CA1 yn darllen yn dda. Defnyddiant gliwiau lluniau a deiagramau i'w helpu i ddeall cynnwys ac adeiladant eiriau yn briodol. Cyd-ddarllenant lyfrau mawr am eliffantod a malwod, stori'r 'Snichod' a thestunau o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ystyrlon.

209. Mae disgyblion CA1 yn ffurfio llythrennau'n gywir. Maent yn llunio disgrifiadau yn effeithiol ac yn deall bod angen cynildeb wrth gyflwyno ffeithiau.

210. Datblyga disgyblion ar draws CA1 wybodaeth am iaith priodol wrth iddynt ddweud beth yw ansoddair a chymariaeth a'u defnyddio'n dda yn eu gwaith creadigol.

211. Mewn gwersi iaith mae disgyblion CA2 yn gwrando'n dda ar oedolion a chymheiriaid. Maent yn awyddus i gynnig sylwadau, rhoi barn a disgrifio, gan ymdrechu i ddefnyddio iaith safonol.

212. Ar draws CA2 mae disgyblion yn datblygu sgiliau didoli gwybodaeth da wrth iddynt ddefnyddio llyfrau ffaith yn effeithiol. Maent yn creu eu testunau ffeithiol eu hunain, er enghraifft mae B3 yn creu llyfr ffaith ar gyfer B1. Mae eu sgiliau ymchwiliol yn datblygu'n dda ar ben uchaf yr ysgol wrth iddynt ymchwilio am wybodaeth i greu dealltwriaeth pellach am gynnwys llyfr ffaith am afonydd.

213. Yn CA2 mae disgyblion yn darllen ystod eang o farddoniaeth, chwedlau a nofelau i blant. Mae ganddynt wybodaeth dda am awduron llenyddiaeth plant yn Gymraeg.

214. Mae disgyblion B4 yn creu parodi yn seiliedig ar gerdd gan Mihangel Morgan ac mae disgyblion B6 yn dadansoddi cynnwys cerdd 'Aberfan' gan T. Llew Jones yn effeithiol; sefydlant empathi gyda'r testun a nodant sut mae'r gerdd yn cyfleu'r drychineb.

215. Ar draws CA2 mae disgyblion yn ysgrifennu i nifer o bwrpasau a gwahanol gynulleidfaoedd. Lluniant adolygiadau, creant holiaduron a ryseitiau. Yn B6 lluniant sgriptiau diddorol sy'n dangos ymwybyddiaeth o fformat y dasg.

216. Mae disgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio geiriaduron yn addas i ehangu eu geirfa a gwirio a gwella eu gwaith. Mae eu llawysgrifen a medrau sillafu yn datblygu'n briodol.

### Diffygion

217. Nid oes diffygion arwyddocaol ond nid yw ysgrifennu ymestynnol disgyblion y ddau gyfnod allweddol na defnydd disgyblion CA2 o bargraffu wedi datblygu'n ddigonol.

## Mathemateg

**Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig: Cyfnod Allweddol 1**
**Gradd 2 nodweddion da a dim diftygion pwysig: Cyfnod Allweddol 2**

### Nodweddion da

218. Mae disgyblion CA1 yn adnabod, ysgrifennu a threfnu rhifau gyda chywirdeb cynyddol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o werth lle. Mae disgyblion B1 yn trafod rhifau o un i ugain yn hyderus, gan arddangos dealltwriaeth gynyddol o fondiau rhif o fewn gwaith adio a thynnu. Maent yn darganfod rhifau coll mewn patrymau yn chwim, yn deall cysyniad odrif ac eilrif, ac yn cyfrif fesul pump a deg yn hyderus.

219. Mae disgyblion B2 yn defnyddio prosesau adio a thynnu yn effeithiol, ac maent yn hyderus wrth ddyblu a haneru rhifau. Trefnant a defnyddiant rifau hyd at gant a llwyddant i gyfrif yn ôl ac ymlaen. Maent yn datrys problemau rhif syml yn dda.

220. Erbyn diwedd CA1 mae'r disgyblion yn arddangos sgiliau mathemateg pen da. Cyfrifant yn gyflym ac yn gywir ac maent yn esbonio eu strategaethau yn effeithiol.

221. Mae gan ddisgyblion B1 ddealltwriaeth sylfaenol o arian, ac maent yn adnabod darnau o arian. Yn B2 maent yn adio a thynnu darnau o arian yn gywir wrth chwarae yn y siop.

222. Mae dealltwriaeth disgyblion B1 o nodweddion siapiau dau ddimensiwn yn dda, ac mae gan ddisgyblion B2 wybodaeth dda am rai siapiau tri dimensiwn. Llwyddant i ddisgrifio prif nodweddion amrywiol siapiau mewn manylder.

223. Defnyddia disgyblion B1 unedau safonol i fesur yn gywir, ac i amcangyfrif yn synhwyrol wrth wneud gwaith ymarferol. Erbyn B2 defnyddiant fesurau safonol mas a chyfaint yn gywir, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amser.

224. Defnyddia disgyblion CA1 ddiagramau a graffiau syml yn effeithiol i gyfathrebu canfyddiadau.

225. Yn CA2 mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o werth lle, ac ymdriniant yn hyderus gyda rhifau mawr yn y pen ac ar bapur. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau addas wrth gyfrifo yn y pen, ac maent yn esbonio gweithdrefnau yn dda, gan ddefnyddio termau mathemategol cywir yn gyffredinol.

226. Mae safonau rhifedd yn dda yn B3 a B4. Ymchwilia'r disgyblion i batrymau rhif yn ddeallus, gan ffurfio damcaniaethau a'u profi mewn dulliau trefnus. Dengys disgyblion B3 a B4 wybodaeth dda o dablau, a defnyddiant y bedair rheol rhif yn gywir i ddatrys problemau. Mae eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffracsiynau syml yn dda.

227. Mae disgyblion hynaf CA2 yn lluosi a rhannu rhifau mawr yn effeithiol, a defnyddiant gyfrifianellau yn fedrus lle bo'n briodol. Gwyddant y tablau lluosi a chymhwysant y ffeithiau priodol yn effeithiol i ystod o broblemau rhif. Maent yn cysylltu ffracsiynau, degolion a chanrannau yn effeithiol, ac yn arddangos dealltwriaeth dda o gysyniad cyfartaledd. Talgrynant rifau yn gywir, ac ymdriniant yn hyderus gyda rhifau negatif a rhifau sgwâr.

228. Ar draws CA2, mae dealltwriaeth disgyblion o siâp a gofod yn dda, ac mae ganddynt wybodaeth eang am onglau, arwynebedd siapiau a chymesuredd. Labelant a mesurant ystod eang o onglau a thrionglau yn dda. Defnyddiant glociau analog a digidol yn gywir ac mae eu gwaith gydag arian yn dda.

229. Ar draws CA2 mae'r gwaith data yn arddangos gallu'r disgyblion i gasglu, cyfleu a dadansoddi mewn amrywiaeth o graffiau.

**Diffygion**

230. Nid oes diffygion amlwg ond ar draws yr ysgol nid yw disgyblion yn defnyddio amrywiaeth ddigonol o ddiagramau a graffiau i gyflwyno data, ac ni ddefnyddir TGCh yn ddigonol i wella medrau cofnodi disgyblion yn y maes hwn.

**Hanes**

| |
|---|
| **Gradd 3; nodweddion da yn gorbwyso diffygion Cyfnod Allweddol 1**<br>**Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod Allweddol 2** |

**Nodweddion da**

231. Mae gan ddisgyblion CA1 ymwybyddiaeth dda o gysyniad 'ers talwm' a 'heddiw', a sylweddolant fod gwrthrychau, megis teganau, yn newid dros gyfnod o amser.

232. Gall disgyblion CA1 enwi a thrafod rhai o gymeriadau enwog Cymreig o'r gorffennol, megis Dewi Sant, Llywelyn Fawr a Barti Ddu, yn dda.

233. Mae disgyblion B1 yn sôn gyda brwdfrydedd am fôr-ladron. Maent yn disgrifio llong Barti Ddu mewn manylder, ac yn ei chymharu'n dda â llongau heddiw.

234. Mae gan ddisgyblion B1 wybodaeth dda am eu teuluoedd a'u cefndiroedd. Maent yn llunio coeden deulu, ac yn llwyddo i egluro'r broses a dehongli coeden deulu yn effeithiol iawn.

235. Mae sgiliau hanes disgyblion CA1 wedi ymestyn o ganlyniad i ymweliadau gan staff Amgueddfa Pontypridd. Soniant yn frwdfrydig am hen gameráu a chloriannau, gan drafod eu pwrpas yn dda. Gwyddant lawer o ffeithiau am arferion golchi ers talwm, ac maent yn ymwybodol o effaith dyfodiad trydan ar fywyd.

236. Gwna disgyblion CA2 ddefnydd da o linellau amser i hybu eu dealltwriaeth o dreigl amser. Llwyddant i leoli digwyddiadau, pobl a newidiadau o fewn fframwaith gronolegol, gan ddangos dealltwriaeth aeddfed o'r ffordd y mae'r gorffennol wedi helpu llunio'r presennol.

237. Yn CA2 dengys disgyblion wybodaeth dda am gyfraniad Cymry enwog, gan gynnwys Hedd Wyn a Betsi Cadwaladr. Mae ganddynt wybodaeth dda am hanes Cymru.

238. Uniaetha disgyblion CA2 yn dda iawn â chymeriadau ac amgylchiadau hanesyddol. Er enghraifft, mae disgyblion B4 yn arddangos empathi â phlant oedd yn gweithio yn y pyllau glo, a disgyblion hŷn yn uniaethu â dioddefaint Anne Frank.

239. Yn CA2 mae disgyblion yn dwyn i gôf yn effeithiol ffeithiau o'r cyfnodau a astudwyd ganddynt, er enghraifft y Celtiaid, y Tuduriaid, Oes Fictoria a Chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Dengys disgyblion B5 frwdfrydedd a gwybodaeth dda wrth gymharu ysgolion Oes Fictoria ag ysgolion heddiw. Mae gwaith traws-gwricwlaidd yn B3 ar y Celtiaid o safon uchel.

240. Mae gan ddisgyblion CA2 wybodaeth dda o hanes leol. Yn B3 a B4 gallant drafod gweithfeydd glo yr ardal yn dda, ac yn B5 maent yn adalw ffeithiau niferus am y Meistri Haearn. Wrth gofnodi eu taith i Ferthyr Tydful soniant mewn manylder am y gweithfeydd haearn, a chartref Joseph Parry.

241. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio terminoleg hanes yn effeithiol wrth drafod eu gwaith.

242. Mae ymweliadau â mannau o ddiddordeb hanesyddol, megis Castell Cyfarthfa, yn ennyn chwilfrydedd, ac yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o hanes.

243. Ar draws yr ysgol, ac yn arbennig yn CA2, mae disgyblion yn gyfarwydd â nifer o fedrau'r hanesydd, ac yn defnyddio ystod addas o ffynonellau yn ddeallus i ddarganfod gwybodaeth. Defnyddiant eu sgiliau holi, cymryd nodiadau a chymharu arteffactau a lluniau yn dda i ddod i gasgliadau synhwyrol.

**Diffygion**

244. Nid oes gan ddisgyblion hŷn CA1 wybodaeth ddigonol am gronoleg, ac ni ddefnyddiant linellau amser i ddatblygu eu dealltwriaeth o dreigl amser.

245. Prin yw gwybodaeth disgyblion hŷn CA1 o hanes eu hardal leol.

**Daearyddiaeth**

| | |
|---|---|
| **Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion** | **Cyfnod Allweddol 1** |
| **Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion amlwg** | **Cyfnod Allweddol 2** |

**Nodweddion da**

246. Mae disgyblion CA1 yn deall nodweddion y tymhorau yn dda, a sylweddolant yr effaith gaiff y tywydd ar bobl a phlanhigion.

247. Amlyga disgyblion CA1 fedrau mapio syml, ac maent yn cofnodi taith o gwmpas yr ardal yn hyderus. Trafodant nodweddion eu hardal yn dda, gan enwi adeiladau a strydoedd yn gywir.

248. Mae gan ddisgyblion B1 wybodaeth dda am wahanol ffyrdd o deithio, a soniant yn frwdfrydig am daith Mr Urdd o gwmpas y byd, gan enwi amrywiol wledydd. Maent â dealltwriaeth dda o bobl sy'n gweithio yn y gymuned, sef y milfeddyg a'r dyn tân.

249. Gall disgyblion B2 wahaniaethu rhwng awyrluniau a mapiau. Gwnânt gynlluniau eglur o'u hystafelloedd gwely. Defnyddiant gamera digidol yn effeithiol i dynnu lluniau uwcholwg o bethau yn yr ystafell ddosbarth.

250. Gŵyr disgyblion hynaf CA1 rai ffeithiau pwysig am fywyd yn Botswana.

251. Yn CA2, mae disgyblion yn cymharu agweddau o fywyd yn Botswana a Chymru yn effeithiol. Wrth astudio rhannau o'r India, gallant ragfynegi'n synhwyrol effeithiau di-goedwigo.

252. Ar ben uchaf CA2 mae gallu disgyblion i drafod dylanwad dyn ar yr amgylchfyd yn dda. Yn B5 mae eu Llyfr Tsunami yn cofnodi mewn modd sensitif canlyniadau'r fath don enfawr.

253. Gŵyr disgyblion CA2 lawer am ddaearyddiaeth eu bro, ac am ardaloedd cyferbyniol, megis Eryri. Yn B4 mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion dynol a ffisegol Bae Caerdydd, fel canlyniad i'w hymweliad â'r ardal. Mae llyfr dosbarth B3 yn cynnwys lluniau o bentrefi'r ardal, gyda sylwadau treiddgar am newidiadau economaidd.

254. Mae gan ddisgyblion CA2 wybodaeth dda o enwau gwledydd, prifddinasoedd a chyfandiroedd y byd, ac maent yn eu lleoli'n gywir ar fap.

255. Mae disgyblion hynaf CA2 yn defnyddio cyfeirnodau grid chwe rhif yn effeithiol i leoli mannau penodol ar fap. Mae ganddynt wybodaeth dda o gyfeiriannau a defnyddiant gyfeiriadau cwmpawd yn addas.

256. Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ystod dda o fedrau a thechnegau i ymchwilio i feysydd daearyddol. Er enghraifft, yn B3 maent yn cynnal archwiliad ar drafnidiaeth yn y pentref a'r effaith a gaiff trafnidiaeth ar yr amgylchfyd.

257. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn adalw terminoleg addas ac yn ei ddefnyddio'n gynyddol gywir.

**Diffygion**

258. Arwynebol yw gwybodaeth disgyblion CA1 o rai o'r meysydd a astudir, ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol ystod cyfyng yn unig o fedrau daearyddol sydd ganddynt i ymchwilio a gwneud gwaith maes yn effeithiol.

## Celf

| | |
|---|---|
| **Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion** | **Cyfnod Allweddol 1** |
| **Gradd 1: da gyda nodweddion eithriadol** | **Cyfnod Allweddol 2** |

**Nodweddion da**

259. Mae disgyblion B1 yn defnyddio amrywiaeth o offer a chyfryngau i greu lluniau a cherfluniau o gymeriadau o stori'r Snichod. Maent yn braslunio yn effeithiol mewn sialc a phastelau ac yn modelu amrywiaeth o gymeriadau deniadol.

260. Mae disgyblion B1 yn datblygu ymwybyddiaeth briodol o siâp wrth iddynt greu collage o injan Trefithig a dangosant ddealltwriaeth o liw, thôn a gwawr liwiau wrth greu 'Tŷ Lliwgar'.

261. Yn B2 mae disgyblion yn edrych yn fanwl ar lun gan Seurat ac yn efelychu ei arddull. Defnyddiant amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys paent, pennau ffelt a sialc i greu effaith pwyntilio yn briodol.

262. Ar draws CA1 mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadur yn llwyddiannus i ddeall pwysigrwydd siâp, llinell a phatrwm.

263. Mae disgyblion B3 yn defnyddio nifer o dechnegau gan gynnwys braslunio, modeli ac argraffu i greu lluniau bywyd llonydd o flodau. Arsylwant yn fanwl ar siâp y petalau ac mae eu gwaith gorffenedig o safon uchel. Mae eu patrymau Celtaidd yn ddeniadol iawn ac yn dangos ymwybyddiaeth dda iawn o linell a siâp, sy'n amlwg hefyd yn eu darluniau o injan Trefethig. Mae eu cerfluniau o Barc y Mileniwm Treharris yn dystiolaeth o waith modelu da.

264. Yn B4 mae disgyblion yn creu gwaith eithriadol sy'n datblygu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau. Mae eu clustogau clymu a lliwio batik yn ddeniadol iawn ac maent yn dangos sensitifrwydd i liw a thôn. Defnyddiant amrywiaeth helaeth o gyfryngau, gan gynnwys pensil a golosg, i greu lluniau realistig o'r ardal leol. Mae eu gwaith yn gysylltiedig â Bae Caerdydd sy'n cynnwys croglun lliwgar yn cyfuno ymwybyddiaeth o waith Picasso a delweddau o'r Bae yn broffesiynol. Mae eu modelau o adeiladau'r Bae o safon uchel.

265. Mae disgyblion B5 yn efelychu llun gan Penry Williams o weithfeydd haearn Merthyr yn effeithiol. Maent yn cynhyrchu llenni o safon eithriadol trwy ddefnyddio techneg argraffu i gyfleu delweddau o chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae eu defnydd o liw a thôn mewn lluniau sy'n cyfleu 'Chwedl Llyn y Fan Fach' yn drawiadol ac mae eu lluniau o blanhigion yn dangos manylder eu harsylwadau.

266. Yn B6 mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o berspectif wrth iddynt fraslunio golygfeydd o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth dda am fywyd a thechnegau Van Gogh ac maent yn gallu adnabod nifer o'u luniau. Mae eu dealltwriaeth am bwysigrwydd Kyffin Williams fel arlunydd Cymreig yn dda iawn. Creant bortread da ohono gan ddefnyddio ystod o bensiliau ac efelychant ei arddull a'i ddefnydd o liw, patrwm a llinell wrth iddynt edrych ar y defnydd o gysgod yn ei luniau.

267. Mae disgyblion hynaf CA2 yn creu gwaith trawiadol sy'n datblygu ymwybyddiaeth eithriadol o amryfaliaeth celf ar draws y byd. Mae eu hymwybyddiaeth o liw, siâp, patrwm a thôn yn datblygu yn eithriadol wrth iddynt efelychu arddull a lliwiau llachar lluniau Affricanaidd a thôn a phatrwm mewn celf sy'n nodweddiadol o'r grefydd Hindwaidd.

**Diffygion**

268. Nid yw disgyblion CA1 yn ddigon ymwybodol o waith arlunwyr o Gymru, nid ydynt yn datblygu sgiliau digonol wrth gymysgu paent ac yn ychwanegol, nid yw eu terminoleg celf yn datblygu'n ddigonol.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Ystyriwyd canfyddiadau yr arolygiad yn ddwys gan staff a CLl Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug. Cytunwn â barn yr Arolygydd Cofrestredig. Mae'r broses arolygu wedi bod yn brofiad positif i holl randdeiliaid yr ysgol gan gadarnhau'r barn a wnaethpwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod ein bod, yn bennaf, wedi cynnal safonau da wrth addysgu a dysgu, er i'r ysgol fod trwy gyfnod anodd oherwydd ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

Roeddem yn falch fod yr arolygwyr wedi canfod bod agweddau disgyblion tuag at eu gwaith, eu gallu i ganolbwyntio a'u hymddygiad yn nodweddion da a bod safonau cyflawniad yn y gwersi yn uwch na thargedau LLCC ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007. Yn ogystal, mae ein systemau gofal a chynhaliaeth, sy'n ategu ein darpariaeth gwricwlaidd, yn cael eu cydnabod fel rhai priodol ac effeithiol. Cydnabyddir medrusurwydd ac ymroddiad ein hathrawon a gofal a doniau staff cymorth yn haeddiannol. Yn bwysicaf oll, mae adroddiad yr arolygiad yn pwysleisio'r elfennau sy'n gwneud ein hysgol yr hyn ydyw. Yn arbennig, mae'r adroddiad yn cadarnhau ein bod yn cyflawni ein nod, sef creu naws gartrefol, hapus, ddisgybliedig ac heriol er mwyn i bob unigolyn ddatblygu'n gyflawn trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Sefydlir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Codi safonau yn y meysydd a ddyfarnwyd gradd 3, diweddaru a chyflawni'r cynlluniau gwaith a nodwyd a datblygu rôl yr arweinyddion pwnc gan sicrhau cyfleoedd iddynt fonitro'n rheolaidd yw'r agweddau y credwn y gallwn fynd i'r afael â hwy o dan arweiniad yr UDRh newydd a chyda hyfforddiant pellach i'r staff. Mae'r staff a'r llywodraethwyr eisoes yn datblygu eu gweithdrefnau rheoli perfformiad a chynnwys yr adroddiad blynyddol y CLl i'r rhieni ac yn awyddus i ddatblygu'r broses hunan-arfarnu.

Lle bo'n bosibl gwneud hynny, bydd y staff a'r llywodraethwyr yn mynd i'r afael â'r argymhellion cyn diwedd y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd codi safonau cyflawniad disgyblion yn brif flaenoriaeth a byddwn yn sicrhau bod y pynciau hyn yn cael eu cynnwys yn y CDY. Yn ogystal, byddwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i'n staff wella eu gwybodaeth a'u medrau fel arweinyddion pwnc fel y gallent helpu'r disgyblion trwy'r ysgol i gyflawni safonau uwch yn y pynciau yma. Yn gadarnhaol, nododd yr arolygwyr sawl elfen a gweithdrefn yn yr ysgol a fydd yn ein helpu i fynd i'r afael â rhai diffygion trwy rannu arfer dda yn ehangach.

Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni. Bydd adroddiad blynyddol y CLl i'r rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran argymhellion yr arolygiad.

# Atodiad A

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug. |
| Math o ysgol | Cymunedol |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-11 oed |
| Cyfeiriad yr ysgol | Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug<br>Mynwent Y Crynwyr<br>Treharris |
| Cod post | CF 46 5AW |
| Rhif ffôn | 01443410212 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs Helen Nutall |
| Dyddiad penodi | Ebrill 2005 |
| Cadeirydd Llywodraethwyr | Mr Alan Jones |
| Arolygydd Cofrestredig | Mrs Eleri Betts |
| Dyddiadau'r arolygiad | 4.7.05 -7.7.05 |

# Atodiad B

### Data a dangosyddion yr ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 22 | 15 | 25 | 21 | 33 | 23 | 28 | 19 | 186 |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 9 | 1 | 9.6 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 23.4:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | 11:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | - |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 24 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1.1:1 |

| Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tymor | D | CA1 | CA2 | Ysgol Gyfan |
| Haf 04 | 89.19% | 92.23% | 91.03% | 91.62% |
| Hydref 04 | 92.03% | 92.96% | 92.45% | 92.44% |
| Gwanwyn 05 | 90.17% | 92.74% | 91.71% | 92.56% |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 18.6% |
| Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | - |

# Atodiad C

## Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
## Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

| **Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004** | | | Nifer y disgyblion yn B2 | | 33 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | |
| | | | D | W | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymraeg | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 88 | 12 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 1 | 11 | 64 | 23 | 0 |
| Cymraeg: llafaredd | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 88 | 12 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 2 | 12 | 63 | 22 | 0 |
| Cymraeg: darllen | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 15 | 58 | 27 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 3 | 17 | 59 | 21 | 0 |
| Cymraeg: ysgrifennu | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 0 | 18 | 82 | 0 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 1 | 3 | 20 | 65 | 10 | 0 |
| Mathemateg | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 3 | 9 | 76 | 12 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 11 | 63 | 24 | 0 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad Athro | Ysgol | 0 | 3 | 6 | 61 | 30 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 2 | 10 | 66 | 22 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn yr ysgol | 88% | Yng Nghymru | 87% |

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

### Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
## Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

| Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 | | | | | | | Nifer y disgyblion yn B6 | | 30 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canran y disgyblion ar bob lefel** | | | | | | | | | | | | |
| | | | D | A | F | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| Saesneg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 44 | 37 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8.6 | 12.6 | 42.1 | 36.7 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 44 | 37 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8.6 | 12.6 | 42.1 | 36.7 | 0 |
| Cymraeg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 40 | 30 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 15.2 | 48.6 | 30.2 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 40 | 30 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 15.2 | 48.6 | 30.2 | 0 |
| Mathemateg | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 40 | 30 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 15.2 | 48.6 | 30.2 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13 | 40 | 43 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6.5 | 15.2 | 42.9 | 35.4 | 0 |
| Gwyddoniaeth | Asesiad athro | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 66 | 17 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 7.7 | 50.7 | 38.6 | 0 |
| | Prawf/Tasg | Ysgol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 66 | 17 | 0 |
| | | Cenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 7.7 | 50.7 | 38.6 | 0 |

| Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) | | | |
|---|---|---|---|
| yn ôl Asesiad Athro | | yn ôl Prawf | |
| Yn yr ysgol | 79.25% | Yn yr ysgol | 79.25% |
| Yng Nghymru | 70% | Yng Nghymru | 71% |

D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgylbion sy'n gweithio tuag at lefel 1

## Atodiad Ch

### Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Cynhaliwyd yr arolygiad gan dîm o dri arolygydd oedd yn bresennol yn yr ysgol am gyfanswm o naw niwrnod.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda rhieni a'r CLl i drafod bywyd a gwaith yr ysgol.
- Nid oedd enwebai.
- Roedd asesydd cymheiriad yn aelod o'r tîm; derbyniodd holl ddogfennau'r ysgol, bu'n arsylwi gwersi ac yn cymryd rhan yn y trafodaethau tîm.
- Llenwyd 43 o holiaduron gan rieni a'u dadansoddi'n fanwl; roedd 93% o'r ymatebion yn gadarnhaol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a'r staff sydd â chyfrifoldebau, staff gweinyddol a disgyblion yn ystod yr arolwg.
- Dadansoddwyd y ddogfen hunan-arfarnu ac archwilwyd dogfennaeth yr ysgol a samplau o waith disgyblion
- Arsylwyd 63 o wersi neu sesiynau ac ymwelwyd gyda phob dosbarth.
- Archwilwyd sampl o waith y disgyblion ar draws yr ystod gallu ym mhob grŵp blwyddyn.
- Gwrandawodd yr arolygwyr ar ddisgyblion yn darllen.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda disgyblion am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ymddygiad disgyblion yn ystod amser egwyl, amser cinio ac ar ddiwedd a dechrau'r sesiynau ysgol
- Aeth yr arolygwyr i'r gwasanaethau ac i arsylwi ar weithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd trafodaethau ôl-arolygiad gyda'r staff a'r CLl.

# Atodiad D

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod Tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Mrs Eleri Betts<br>Arolygydd cofrestredig | Cyd-destun, crynodeb ac argymellion.<br>Cwestiynau Allweddol 1,3,5,6.<br>Blynyddoedd Cynnar, Cymraeg, celf |
| Mr Gwilym Morris<br>Arolygydd lleyg | Cyfraniadau at gwestiynau 1,3,4,7. |
| Mrs Zorah Evans<br>Arolygydd tîm | Cwestiynau Allweddol 2,4,7.<br>Gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, |
| Mrs Gwenda Roberts<br>Asesydd Cymheiriad | Arsylwi gwersi a chyfrannu at drafodaethau. |

### Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r llywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

### Contractwyr

Uned Arolygu Celtaidd/CISU
APCC/UWIC
Caerdydd
CF23 6XD

**Arolygiad dan Adran 10**
**Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996**

**Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug**
**Mynwent y Crynwyr**
**Treharris**
**Merthyr**
**CF46 5AW**

# ADRODDIAD CRYNO I RIENI

**Dyddiad yr Arolygiad: Gorffennaf 4ydd-7fed 2005**

**gan**

**Mrs Eleri Betts**
**W248/17717**

**Dyddiad: Medi 6ed 2005**

**Dan rif contract Estyn: T/258/04P**

© Hawlfraint y Goron 2005

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug rhwng Gorffennaf 4ydd a 7fed 2005. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mrs Eleri Betts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ond yn ei gyfanrwydd yn unig a chyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu air am air heb ei addasu, a bod y ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gradd 1** | da gyda nodweddion eithriadol |
| **Gradd 2** | nodweddion da a dim diffygion pwysig |
| **Gradd 3** | nodweddion da yn gorbwyso diffygion |
| **Gradd 4** | rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig |
| **Gradd 5** | llawer o ddiffygion pwysig |

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer pob arolygiad mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau byr, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau safonol, mae yna adroddiadau hefyd ar chwe phwnc allweddol.

Ar gyfer arolygiadau llawn, mae yna adroddiadau hefyd ar bob pwnc.

Estyn sy'n penderfynu'r math o arolygiad a gaiff yr ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Caiff y rhan fwyaf o ysgolion arolygiad safonol. Caiff pob ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion sydd wedi cyfuno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B 1 | B 2 | B 3 | B 4 | B 5 | B 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B 7 | B 8 | B 9 | B 10 | B 11 | B 12 | B 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn mae'r ysgol yn mynd i'w wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

**Rhestr o fyrfoddau yn yr adroddiad yn nhrefn yr wyddor.**

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysg Arbennig |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| ABCh | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| ACCAC | Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| ANG | Athrawon Newydd Gymhwyso |
| B | Blwyddyn |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 |
| CAAA | Cydlynydd Anghenion Addysg Arbennig |
| CAU | Cynllun Addysg Unigol |
| CC | Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CDY | Cynllun Datblygu Ysgol |
| CLl | Corff Llywodraethol |
| CRhA | Cymdeithas Rhieni ac Athrawon |
| CY | Côd Ymarfer |
| HMS | Hyfforddiant Mewn Swydd |
| LlCC | Llywodraeth Cenedlaethol Cymru |
| PBA | Partneriaeth Busnes Addysg |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| UDRh | Uwch Dîm Rheoli |

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug ym mhentref Mynwent y Crynwyr ger Treharris. Merthyr yw'r AALl. Mae'r prif adeilad yn dyddio o 1902. Agorwyd hi fel Ysgol Gymraeg yn 1976 gydag un dosbarth; erbyn heddiw mae wyth dosbarth yn yr ysgol. Ychwanegwyd caban deulawr a chaban bach arall ar iard yr ysgol wrth i'r rhifau gynyddu.

2. Daw'r disgyblion o ardaloedd Troed y Rhiw, Aberfan, Merthyr Vale, Edwardsville, Treharris, Mynwent y Crynwyr, Bedlinog a Threlewis. Mae talgylch yr ysgol o dan anfantais economaidd; mae nifer o bentrefi sy'n bwydo'r ysgol yn derbyn grant ariannol o Gronfa Gymdeithas Ewrop.

3. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn derbyn addysg feithrin naill ai yn yr ysgol neu mewn cylchoedd meithrin cyfagos. Mae 186 disgybl o 3-11 oed yn yr ysgol ar hyn o bryd, ffigwr sy'n cynnwys 22 plentyn amser llawn yn y dosbarth meithrin. Mae tua 19% o'r disgyblion yn derbyn prydau bwyd am ddim; mae oddeutu 5% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle Cymraeg yw'r brif iaith a daw tua 1% o gefndir lleiafrifol ethnig. Nodir gan yr ysgol bod 47 disgybl ar y gofrestr AAA ond bod neb â datganiad.

4. Bu'r pennaeth diwethaf yn absennol am gyfnod hir gyda salwch ac am ddwy flynedd pennaeth dros dro fu'n gyfrifol am redeg yr ysgol; apwyntiwyd pennaeth newydd ar ddechrau tymor yr haf 2005.

5. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 1999. Derbyniodd wobr 'Marc Safon i Ysgolion' yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn Ionawr 2004.

6. Arwyddair yr ysgol yw 'Gyda'n gilydd croeswn y bont'.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Mae'r ysgol yn nodi mae ei phrif amcanion yw:

- creu naws gartrefol, hapus, ddisgybledig ac heriol er mwyn i bob unigolyn ddatblygu'n gyflawn trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg;
- ennyn hunan barch, parch at eraill a threftadaeth;
- datblygu dinasyddion cyfrifol a chyflawn ar gyfer her y dyfodol;
- datblygu pob plentyn hyd eithaf ei allu;
- sicrhau cyfle cyfartal a gwneud y cwricwlwm yn blentyn ganolog;
- ehangu gwybodaeth plentyn trwy gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol;
- creu awyrgylch sy'n hybu annibyniaeth a hyder;
- meithrin ymwybyddiaeth o gadwraeth a gwarchodaeth o'n hamgylchfyd.

8. Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:

- diweddaru'r cynllun Cymraeg, gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau iaith ar draws yr ysgol;
- diweddaru cynllun TGCh a threfnu HMS i staff ar feddalwedd newydd;
- pennu targedau ar gyfer sgiliau sylfaenol a monitro datblygiadau llythrennedd a rhifedd;
- diweddaru cynllun gwaith dylunio a thechnoleg;
- sefydlu Cyngor Ysgol;
- gwella amgylchedd yr ysgol a chadarnhau ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a pharhau gyda gweithgareddau Eco ysgolion.

## Crynodeb

9. Mae gan yr ysgol hon dîm o athrawon ymroddgar sydd wedi bod trwy gyfnod anodd oherwydd ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i'r pennaeth newydd sydd, ers ei phenodiad ar ddechrau tymor yr haf 2005, wedi cynnig gweledigaeth glir a chyfeiriad pendant i'w gwaith. O ganlyniad, bu cynnydd amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ethos llawn gofal a pharch at eraill yn amlwg o fewn cymuned yr ysgol hon.

10. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda graddau'r ysgol yn ei dogfen hunan-arfarnu mewn pedwar o'r cwestiynau allweddol ond wedi rhoi gradd uwch mewn dau arall a gradd is mewn un.

11. Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

| Cwestiwn allweddol | | Gradd yr arolygiad |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3 | Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 3 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? | Gradd 2 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? | Gradd 3 |
| 6 | Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 2 |
| 7 | Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 2 |

**Safonau**

12. At ei gilydd, mae safonau yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 8% | 78% | 14% | - | - |

13. Ar gyfer plant dan bump oed mae safonau ar draws y chwe maes dysgu fel a ganlyn:

**Meithrin**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 3 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 3 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 3 |

**Derbyn**

| | |
|---|---|
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 3 |
| Datblygiad personol a chymdeithasol | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 2 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 2 |

14. Mae'r safonau yn CA1 a CA2 yn y pynciau fel a ganlyn:

| Pwnc | Cyfnod Allweddol 1 | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| Cymraeg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 3 | Gradd 2 |
| Celf | Gradd 3 | Gradd 1 |

15. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yn llawer uwch na tharged LLCC ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2007 sef 98% yn foddhaol neu'n well(Gradd 3) a 65% yn dda neu'n well (Gradd 2).

16. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd.

17. Mae disgyblion AAA yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd safonau da yn arbennig yn y sesiynau neilltuo lle dysgir hwy mewn grwpiau bach.

18. Yn CA1 o 2001 ymlaen mae'r Dangosydd Pwnc Craidd, sy'n cyfuno canlyniadau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi codi'n gyson

ac yn 2004 am y tro cyntaf ers blynyddoedd, roedd yn uwch na chanlyniadau'r AALI a chenedlaethol. Wrth gymharu gydag ysgolion tebyg mae canlyniadau'r Gymraeg a gwyddoniaeth yn 2004 uwchben y canolrif ac yn mathemateg yn union ar y canolrif.

19. Yng nghanlyniadau profion cenedlaethol CA2 yn 2004 llwyddodd yr ysgol i gynnal y gwelliant cyson fu yn y dair blynedd ddiwethaf. O ganlyniad roedd y Dangosydd Pwnc Craidd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr AALl ac ychydig yn uwch na Chymru gyfan. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg roedd yr ysgol uwchben y canolrif ym mathemateg a Saesneg, o dan y canolrif mewn gwyddoniaeth ac yn y chwartel isaf yn Gymraeg.

20. Mae sgiliau dwyieithrwydd y disgyblion yn datblygu'n dda a'r ysgol yn cyflawni ei nôd eu bod i gyd yn ddinasyddion dwyieithog erbyn cyrraedd unarddeg oed.

21. Ar gyfer y plant dan bump mae'r safonau yn y medrau allweddol yn dda mewn rhifedd a TGCh. Mewn llythrennedd, fodd bynnag, er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion nid yw disgyblion meithrin yn datblygu sgiliau cyfathrebu ar draws y meysydd dysgu yn ddigonol ac yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn ni ddatblygir sgiliau cyn-ysgrifennu'n ddigonol.

22. Yn CA1 a CA2 mae datblygiad yn y medrau allweddol at ei gilydd yn dda mewn llythrennedd a TGCh. Mewn rhifedd fodd bynnag, er bod nodweddion da yn gorbwyso diffygion nid yw'r sgiliau yn cael eu datblygu'n gyson.

23. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn dda gyda nodweddion eithriadol.

24. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwybod yn hollol beth maent yn mynd i ddysgu gan y gwneir allnod y wers yn glir iddynt ar y dechrau. Gwnânt gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial.

25. At ei gilydd mae sgiliau creadigol y disgyblion yn dda. Mae llawer o'r gwaith gynhyrchir mewn celf yn CA2 yn dangos creadigrwydd eithriadol. Nid yw disgyblion ieuengaf, fodd bynnag, bob amser yn datblygu creadigrwydd yn llawn gan na chânt ddigon o ddewis o gyfryngau ac mae'r gwaith gorffenedig yn unffurf. Cyfyng yw sgiliau datrys problemau disgyblion ar draws yr ysgol.

26. Mae plant dan bump a disgyblion CA1 yn datblygu dealltwriaeth dda am rai swyddi sy'n greiddiol i fywyd y gymuned. Mae disgyblion hŷn yn sylweddoli pa gyfleoedd gwaith sydd yn yr ardal leol.

27. Mae safon ymddygiad y disgyblion yn dda. Maent yn gwrtais a chyfeillgar ac mae'r rhai hŷn yn awyddus i ofalu am y rhai ifancaf a disgyblion o bob oed yn deall bod angen iddynt barchu rheolau'r ysgol.

28. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gyson dda; caiff eu hymddygiad effaith gadarnhaol ar safonau gwaith.

29. Mae'r cyfartaledd presenoldeb dros y tri thymor diwethaf yn 92%.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

30. Barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 24% | 56% | 20% | - | - |

31. Er nad oes gan yr ysgol bolisi addysgu a dysgu fyddai'n sicrhau paredd yn arferion addysgu o fewn yr ysgol, mae ansawdd yr addysgu yn gryfder ac yn elfen allweddol yn y cynnydd a wneir gan y disgyblion.

32. Mae ansawdd addysgu disgyblion ag AAA yn gyson dda, ac weithiau'n dda iawn, lle ceir cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth, neu wedi'u neilltuo.

33. Yn yr holl wersi mae ffocws clir a chyson, ac adolygu effeithiol ar y diwedd. Mae'r cynllunio yn ofalus a darperir tasgau gwahaniaethol addas.

34. Yn gyffredinol, mae gan athrawon wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r pynciau a addysgant, ac maent yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar. Mae ganddynt berthynas waith eithriadol gyda disgyblion, a rhoddant ganmoliaeth i ymdrechion unigolion yn gyson. Defnyddir TGCh yn effeithiol i gyfoethogi'r addysgu.

35. Mae polisi asesu'r ysgol yn glir, ac yn gyffredinol mae'r gweithdrefnau'n effeithiol yn enwedig ar gyfer plant ag AAA a'r plant dan bump.

36. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd er nad yw'r arfer dda yn gyson ar draws yr ysgol; yn yr enghreifftiau gorau, mae'r sylwadau'n cynnig arweiniad addas ar sut i wella'r gwaith. Cydymffurfia adroddiadau blynyddol i rieni â'r gofynion statudol.

37. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a pherthnasol.

38. Ar gyfer y plant dan bump, seiliwyd y cwricwlwm yn briodol ar y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Caiff ei gyflwyno trwy themau addas ac mae cysylltiadau cyffrous rhwng y gweithgareddau yn y gwahanol feysydd. Fodd bynnag nid yw'r cynllunio ar gyfer y cylch llawn o themau wedi ei gwblhau ac ni werthuswyd y cynllunio sydd yn bodoli. Yn y dosbarth meithrin mae'r ddarpariaeth yn rhy strwythuredig ar adegau.

39. Mae'r cwricwlwm ar gyfer CA1 a CA2 yn cael ei gyflwyno'n ddiddorol gyda llawer o gyfleoedd i wneud gwaith ymarferol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn effeithiolrwydd y cynlluniau gwaith ar draws y pynciau gan nad yw nifer ohonynt wedi eu diweddaru. Caiff hyn effaith andwyol ar ddilyniant yn y pynciau. Yn ystod yr arolwg gwelwyd gwaith yn cael ei gyflwyno ar yr un lefel i ddosbarthiadau o wahanol oedran ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith cartref yn dda.

40. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi symud ymlaen gyda chynllunio ar gyfer medrau allweddol. Mae rhain wedi eu mapio allan ac mae côd yn cael ei ddefnyddio'n briodol i sicrhau darpariaeth.

41. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i ganllawiau ACCAC ar gyfer ABCh. Mae gweithgareddau Cyngor yr Ysgol yn rhan annatod o'r ddarpariaeth lle caiff y disgyblion gyfleoedd i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

42. Mae'r ysgol yn anelu at gael ei chydnabod fel Ysgol Eco ac mae eisoes wedi ennill y faner efydd. Rhoddir pwyslais amlwg ar fwyta'n iach, datblygiad cynaliadwy, ailgylchu, lleihau gwastraff ac achub ynni a dŵr.

43. Mae datblygiad diwylliannol disgyblion yn eithriadol. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth.

44. Mae ymweliadau i ystod o fannau addoli yn cadarnhau dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill. Mae parch ac ymwybyddiaeth at ieithoedd eraill yn cael ffocws amlwg yn yr ysgol.

45. Mae datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn eithriadol. Mae sesiynau cyd-addoli yn cynnig naws addolgar hyfryd lle mae elfen o fyfyrdod ac ethos Gristnogol yn amlwg. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig moesau da i'r disgyblion. Mae disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Mae darpariaeth allgyrsiol yr ysgol yn dda.

46. Mae cysylltiadau gyda rhieni yn dda. Mae cytundeb ysgol/cartref yn weithredol. Roedd y rhieni yn canmol yr ysgol yn frwdfrydig yn yr holiadur a'r cyfarfod cyn-arolwg. Serch hynny, nid yw Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol.

47. Er nad oes polisi ar gyfer partneriaethau gyda diwydiant, mae'r cysylltiadau yn datblygu'n briodol fel rhan o bartneriaeth dda yr ysgol gyda'i chymuned.

48. Mae partneriaethau gydag ysgolion eraill yn dda. Mae'r berthynas gyda'r ysgol uwchradd yn gryf ac mae polisi trosglwyddo yn ogystal â chysylltiadau cwricwlaidd effeithiol. Mae'r berthynas gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg y clwstwr sy'n bwydo'r ysgol gyfun a'r cylchoedd meithrin sy'n bwydo'r ysgol yn dda yn ogystal â phartneriaethau ag ysgolion cyfrwng Saesneg y sir.

49. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr yn dda. Mae disgyblion yn hynod hapus yn yr ysgol.

50. Rhoddir sylw cyson i les personol disgyblion yn ogystal ag i faterion iechyd a diogelwch. Cymerir camau ymarferol da i sicrhau diogelwch disgyblion tra byddant yn yr ysgol ac wrth groesi'r bont at y bysiau ar ddechrau a diwedd dydd.

51. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o fwlio yn ystod yr arolygiad; mae gan yr ysgol ganllawiau eglur i ymdrin â'r broblem pe cyfyd yr angen. Mae'r staff â gwybodaeth dda o'r canllawiau manwl sydd ar eu cyfer ym maes amddiffyn

plant. Mae trefniadau gweithredu wedi'u sefydlu'n dda; y pennaeth a'r dirprwy sy'n gyfrifol am y maes hwn.

52. Mae polisiau ar gyfer addysg ryw a chydraddoldeb hiliol wedi'u sefydlu'n gadarn, ac yn hysbys i'r staff i gyd. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys rhai ag anableddau corfforol er nad yw'r ystafell ddosbarth ar ben uchaf y caban dwbl yn addas ar eu cyfer.

53. Ceir gweithdrefnau effeithiol iawn, megis systemau gwobrwyo, i hybu hunan hyder a hunan barch disgyblion.

54. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda, ac yn cydymffurfio'n llwyr â'r CY. Gwneir defnydd addas o brofion safonol i adnabod anghenion yn gynnar. Derbynia'r disgyblion gefnogaeth dda gan athrawon dosbarth, athrawes arbenigol, a chymorthyddion i gyrraedd targedau a nodir yn eu CAUau.

55. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, ond nid oes seicolegydd addysg o fewn yr AALl ar hyn o bryd i ymdrin â rhai problemau penodol disgyblion ag AAA. Lle mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r rhieni mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

56. Cafwyd cyfnod ansefydlog iawn yn arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i absenoldeb rheolaidd y cyn bennaeth oherwydd salwch.

57. Yn ystod y cyfnod hwn chwaraeodd y dirprwy rôl allweddol yn sicrhau bod ysbryd tîm yn bodoli rhwng yr athrawon; er enghraifft ymgymrodd yr ysgol gyda nifer o fentrau cenedlaethol megis ennill Marc Ansawdd Sgiliau Sylfaenol.

58. Ers i'r pennaeth newydd ymgymryd â'i rôl ychydig wythnosau yn unig cyn yr arolygiad mae wedi blaenoriaethu'n briodol. Llwyddodd mewn byr amser i sicrhau ymdeimlad o bwrpas o fewn cymuned yr ysgol. Fodd bynnag nid yw gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi datblygu'n ddigonol.

59. Mae diffygion amlwg yn rôl y cydlynyddion pwnc. Mae rhai athrawon wedi newid cyfrifoldebau nifer o weithiau yn ddiweddar ac nid ydynt yn hyderus am eu cyfrifoldebau. Ni chawsant gyfleoedd i fonitro'r dysgu a'r addysgu yn eu pynciau nac i gwblhau neu ddiweddaru'r cynlluniau gwaith. Nid yw nifer ohonynt wedi derbyn HMS sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau cyfredol.

60. Mae gan y CLl agwedd ofalgar a chefnogol tuag at yr ysgol ac mae'r pennaeth yn awyddus i ddefnyddio eu harbenigedd yn effeithiol; o ganlyniad mae'r aelodau yn datblygu'n rhan ddalwyr effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol.

61. Mae'r ddogfen hunan-arfarnu a luniwyd gan y pennaeth mewn ymgynghoriad gyda'r athrawon yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir a chywir o gryfderau'r ysgol, lle mae angen gwella a ble dylid blaenoriaethu. Mae'r argymhellion a

nodir yn yr adroddiad hwn eisoes yn cael eu nodi fel meysydd i'w datblygu yn nogfennaeth yr ysgol.

62. Ymatebodd yr ysgol yn briodol i arolwg wnaed gan yr AALl i ddirywiad yn y safonau yn dilyn yr arolygiad diwethaf gan flaenoriaethu'n gymwys. Mae'r CDY yn nodi blaenoriaethau'r ysgol yn briodol. Mae'r ysgol yn cymharu ei pherfformiad gydag ysgolion eraill yn gyson.

63. Mae'r CLl a'r disgyblion trwy weithgareddau Cyngor yr Ysgol yn datblygu eu rôl fwy fwy yn y broses hunan-arfarnu; fodd bynnag er bod y rhieni yn hynod wybodus am yr ysgol, nid ydynt wedi cael cyfle i roi mewnbwn ffurfiol.

64. Er mai araf fu cynnydd yr ysgol yn union wedi'r arolwg diwethaf, yn ystod 2004-2005 bu'r cynnydd yn dda.

65. Mae digon o athrawon gyda chymwysterau addas i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm. Defnyddir eu harbenigedd yn dda i gyfnewid dosbarthiadau.

66. Gwneir defnydd effeithiol o athrawes arbenigol sy'n cefnogi iaith disgyblion ag AAA. Mae staff cynnal yn yr ystafelloedd dosbarth yn gweithio'n arbennig o dda i hyrwyddo cynnydd y disgyblion dan eu gofal.

67. Mae safon glanweithdra'r ysgol yn dda iawn, a'r gofalwr, y staff cynorthwyol a gweinyddol yn cael dylanwad da ar rediad yr ysgol o ddydd i ddydd.

68. Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau priodol ar gyfer pob oedran er bod prinder offer mawr o fewn ystafell dosbarth y plant meithrin. Mae'r adnoddau mewn cyflwr da, a gwneir defnydd cyson ac effeithiol ohonynt yn ystod y gwersi.

69. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r adeiladau. Er ei bod yn gyfyng, defnyddir y neuadd yn llwyddiannus ar gyfer gwersi addysg gorfforol, gwasanaethau ysgol gyfan, ac i arlwyo cinio. Er bod y caban deulawr yn edrych yn ddiraen o'r tu allan mae gofal yr athrawon yn sicrhau ei fod yn ddeniadol y tu fewn. Mae'r adeilad, fodd bynnag, yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddatblygu mewn nifer o agweddau o fywyd ysgol. Mae'r AALl ei hun yn feirniadol o gyflwr yr adeilad ac yn ddiweddar bu'r ysgol yn rhan o drefniadau ymgynghorol ynghylch symud i adeilad arall yn 2007.

70. Mae'r arddangosfeydd bywiog a chwaethus ar furiau'r ystafelloedd a'r coridorau'n cyfrannu'n dda at greu ethos braf yn yr ysgol, ac maent yn adnoddau dysgu effeithiol.

71. Nid oes gan yr ysgol gae chwarae, ond mae'r iard wedi ei farcio'n briodol ar gyfer gemau. Mae'r cabanau ar yr iard yn cwtogi'r lle chwarae ac ar addysg amgylcheddol yn sylweddol. Mae iard bwrpasol ar gyfer y plant dan bump oed. Mae'r mannau chwarae yn ddiogel, a gwneir defnydd addas ohonynt.

72. Mae rheolaeth gyllidol yn dynn, a'r ysgol yn gweithredu'n dda o fewn ei chyllid. Mae'r CLl yn monitro'r holl wariant yn effeithiol gan sicrhau cost effeithiolrwydd. Defnyddir y CDY fel arf i gynllunio'n gyllidol ar gyfer y dyfodol.

73. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

Er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen mae angen i'r athrawon a'r CLl:

A1 godi safonau mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu , datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol yn y dosbarth meithrin ac mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y dosbarth derbyn.

A2 codi safonau mewn hanes, daearyddiaeth a chelf yn CA1;

A3 sicrhau bod y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau yn gyflawn ac wedi eu diweddaru'n briodol;

A4 datblygu rôl y cydlynyddion pwnc gan ddarparu cyfleoedd iddynt fonitro'r pynciau yn rheolaidd;

A5 datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad;

A6 parhau i ddatblygu'r broses hunan- arfarnu;

A7 sicrhau bod cynnwys adroddiad blynyddol y CLl i'r rhieni yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion statudol.

N.B. Mae argymhellion 3-6 eisoes wedi eu nodi yn yr adroddiad hunan-arfarnu fel materion mae'r ysgol yn ymwybodol fod angen gwelliant.

**Cydnabyddiaeth**

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r llywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.